*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 20 IONAWR 2025** yn rhithiol **trwy Zoom**, yn dechrau **am 09.30**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datganiadau o Fuddiant**

**3. Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2024**

**5. Materion yn Codi**

**6. Adroddiad y Cadeirydd**

**7. Diweddariad ar yr Adolygiad Annibynnol o'r Diwylliant**

**8. Alldro Dros Dro 2024-25**

**9. Yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys**

**10. Pennu Cyllideb 2025-26**

**11. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – cyfraddau cyfraniadau gweithwyr ar gyfer cynllun pensiwn y diffoddwyr tân**

**12. Asesiad Perfformiad Blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2023-2024**

**13. Cynllun Datgarboneiddio Pŵer**

**14. Cynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol**

**15. Materion Brys**
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 2 uchod.

Parhad...

## **RHAN II**

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 16. Adolygiad Diwylliant

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **Ddydd Llun 21 Hydref 2024** yn rhithiol gan ddefnyddio **Zoom**. Dechreuodd y cyfarfod am **09.30 o'r gloch**.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Stewart Forshaw | Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Anthony Jones | Rheolwr Ardal – Trawsnewid |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Elgan Roberts | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Steve Morris | Pennaeth TGCh |
| Rhian Williams | Dirprwy Bennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Natalie Jones | Swyddog Iaith Gymraeg |
| Euros Lake | Archwilio Cymru |
| Kieran Vickery | Archwilio Cymru |
| Carwyn Rees | Archwilio Cymru |
| Timothy Buckle | Archwilio Cymru |
| George Jones | Gwasanaethau Cyfieithu Atebol |
| Ellie Williams | Gwasanaethau Aelodau |
| Lisa Allington | Gwasanaethau Aelodau |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**YN ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3 HYSBYSIADAU O FATERION BRYS**

3.1 Ni chafwyd hysbysiad am unrhyw fater brys.

**4 COFNODION CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB A GYNHALIWYD AR 15 GORFFENNAF 2024**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2024 i gael eu cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2024 fel cofnod cywir a gwir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5 COFNODION CYFARFOD YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB A GYNHALIWYD AR 15 GORFFENNAF 2024**

5.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2024 i gael eu cymeradwyo.

5.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub o 15 Gorffennaf 2024 fel cofnod cywir a gwir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 6 MATERION YN CODI

6.1 O ran Eitem 7 o gofnodion y cyfarfod busnes a gynhaliodd yr Awdurdod ar 15 Gorffennaf 2024, gwahoddwyd y Rheolwr Ardal Anthony Jones i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR).

6.2 Cadarnhaodd y Rheolwr Ardal Jones fod Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (y Grŵp) wedi ailgydio yn eu gwaith ar 5 Medi, yn sgil penderfyniad yr Awdurdod ar 15 Gorffennaf 2024 i barhau i weithio ar ddau o'r tri chynnig ymchwil a gyflwynwyd iddynt yn gysylltiedig â'r ECR. Ni newidiwyd y Cadeirydd na'r Dirprwy Gadeirydd.

6.3 Cytunodd y Grŵp i rannu argymhellion yr Awdurdod yn dair ffrwd waith, sef: datblygu system dyletswydd amser cyflawn newydd ar gyfer y Rhyl, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam, sy'n seiliedig ar y system pum gwylfa a ddefnyddir yn yr Alban; datblygu system criwio dydd hunanrestru newydd sy'n seiliedig ar y system a ddefnyddir ym Manceinion Fwyaf; a pharhau i ddatblygu'r dadansoddiad SWOT ar gyflwyno lefel isafswm criwio o bedwar ar gyfer pob tîm system dyletswydd amser cyflawn.

6.4 Rhagwelwyd y byddai canlyniadau gwaith y Grŵp yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yn 2025.

## 7 DIWEDDARIAD Y PRIF SWYDDOG TÂN

7.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân (PST) ddiweddariad ar lafar i'r Aelodau ynghylch sawl mater o bwys yr oeddent eisoes wedi cael gwybodaeth amdanynt.

7.2 Hysbyswyd yr Aelodau bod Rhan II o Adroddiad Ymchwiliad Tŵr Grenfell (GTI) wedi'i ryddhau ar 4 Medi, saith mlynedd ers y drychineb, pan fu farw 72 o bobl. Roedd gan yr ymchwiliad hwn oblygiadau ar gyfer y sector cyfan, ond y meysydd hynny a oedd yn gofyn am fwy o ffocws oedd: casglu a rhannu gwybodaeth risg; hyfforddi Gweithredwyr yr Ystafell Reoli i drin galwadau torfol, sydd yn rhywbeth y mae'r Gwasanaeth eisoes yn ei wneud; a hyfforddiant ar wacáu cyfamserol, hynny yw, helpu i drigolion adael yr adeilad a gweithredu'n drefnus i ddiffodd tân ar yr un pryd.

7.3 Ar 8 Hydref 2024, cyhoeddwyd adroddiad gan Brif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru, Dan Stephens, yn sgil ei arolygiad o dechnegau diffodd tanau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Roedd arolygiad tebyg yn cael ei gynnal yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a byddai'n dod i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ym mis Ionawr i wneud yr un fath. Roedd hwn yn faes arall a fydd â goblygiadau ar gyfer hyfforddiant o fewn y Gwasanaeth.

7.4 Disgwylid i ganlyniadau ei adroddiad fod yr un fath ar gyfer tri ATA Cymru, fel yr oeddent ar draws y DU gyfan, sef bod y technegau a ddefnyddir ar hyn o bryd, y rhai a ddysgwyd ers ugain mlynedd, bellach yn anaddas i'r diben. Roedd llawer o ffactorau yn gyfrifol am hyn, gan gynnwys y ffaith bod cartrefi'r oes hon wedi'u hinsiwleiddio yn well, bod ffenestri gwydr dwbl bellach yn arferol, a bod y math o ddodrefn ac eitemau TG sydd yn y rhan fwyaf o gartrefi'r dyddiau hyn yn fwy fflamadwy ac yn llosgi'n boethach na'r rhai a fyddai wedi bod mewn cartrefi ugain mlynedd yn ôl.

7.5 Yn ei adroddiad, dywedodd Dan Stephens fod y technegau sy'n cael eu dysgu a'u defnyddio ar hyn o bryd yn anaddas, a bod gwaith ymchwil a wnaed yn yr UDA a'r Iseldiroedd yn cefnogi hyn, ac y gallent beryglu diffoddwyr tân hyd yn oed. Roedd ei argymhellion, a oedd bellach wedi'u hymgorffori yn y Canllaw Gweithredol Cenedlaethol newydd ar gyfer y DU, yn awgrymu y byddai angen anghofio hen dechnegau a dysgu rhai newydd, ac y byddai hynny'n arwain at ailddylunio ac ailfodelu llawer o hen Ganolfannau Hyfforddi hen-ffasiwn, gan gynnwys un ein Gwasanaeth ni, sydd yn hanner-cant oed bellach.

7.6 Cynhaliwyd y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ddydd Llun 7 Hydref, a hynny dan gadeiryddiaeth Jane Bryant, y Gweinidog newydd dros Wasanaethau Tân ac Achub. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar argaeledd darpariaeth frys mewn ardaloedd gwledig, ac roedd hi'n bwysig i'r Gweinidog gael dealltwriaeth o'r heriau sy'n bodoli. Yna, roedd y Gweinidog yn y Senedd ar 9 Hydref i dderbyn adroddiad 'Seinio'r Larwm' gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a oedd yn ailadrodd yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Archwilio Cymru ar Lywodraethiant yr Awdurdodau Tân ac Achub. Bydd ymgynghoriad ar ymateb y Gweinidog yn y Flwyddyn Newydd, gan gynnig model llywodraethu newydd ar gyfer pob un o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru, gyda'r nod o'i sefydlu o fewn y 12 mis nesaf.

7.7 Nododd Aelod bod adroddiad y Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn dweud mai dyma'r adeg ddelfrydol i gydweithio er mwyn rhoi'r cyfleusterau hyfforddi gorau posibl i Ddiffoddwyr Tân Gogledd Cymru.

7.8 Yn olaf, cafodd yr Aelodau wybod bod y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Stewart Forshaw, wedi penderfynu ymddeol ddiwedd mis Rhagfyr. Dywedodd y Prif Swyddog Tân y byddai'n golled fawr i'r tîm, a'i bod yn ddiolchgar am ei ymdrech, ei egni, a'i ymroddiad wrth ei waith o ddatblygu diwylliant y Gwasanaeth, ac am iddo ofyn y cwestiynau hollbwysig hynny ynghylch y defnydd o adnoddau, am y gwelliannau a wnaeth i ddarpariaeth a chyfleusterau hyfforddi'r Gwasanaeth, ac am Gadeirio cynifer o gyfarfodydd mewnol a oedd wedi helpu i ddatblygu'r Gwasanaeth. Rhoddodd y PST ei diolch i'r DBST Forshaw am yr holl bethau yr oedd wedi'u cyflawni, a dymunodd yn dda iddo yn y dyfodol, ac fe adleisiwyd hynny gan yr Aelodau.

7.9 Diolchodd y DBST Forshaw i'r rhai oedd yn bresennol am eu geiriau caredig, a dywedodd ei bod wedi bod yn anrhydedd iddo gael bod yn Ddirprwy Brif Swyddog Tân i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a'i fod yn gobeithio y byddai'r gwaith da yn parhau yn y dyfodol.

## 8 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

8.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i roi i'r Aelodau er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn rhinwedd swyddogol eu swyddi rhwng mis Gorffennaf a Medi 2024.

8.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r wybodaeth oedd yn y papur.**

## 9 ACHOS BUSNES Y GANOLFAN HYFFORDDI NEWYDD

9.1 Cyflwynodd y PSTC Justin Evans achos busnes i'r Aelodau ar gyfer datblygu canolfan hyfforddi newydd (y Ganolfan) i'r Gwasanaeth. Roedd yr achos busnes yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o'r cyfleusterau presennol, amlinelliad o'r risg bresennol, a gwerthusiad manwl o'r opsiynau, ynghyd ag argymhelliad i fwrw ymlaen â'r opsiwn a ffefrir.

9.2 Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle hwn i atgoffa'r Aelodau bod y cyfleusterau hyfforddi sydd ar gael i'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn anaddas i'r diben, ac y byddai'n rhaid uwchraddio'r cyfleusterau er mwyn blaenoriaethu diogelwch a lles ei ddiffoddwyr tân.

9.3 Nododd un Aelod bwysigrwydd gwneud y penderfyniad cywir, a gofynnodd: beth oedd wedi'i drafod hyd yma o ran gweithio mewn partneriaeth; a fyddai'r cyfleuster yn gallu ymdopi â'r ailhyfforddi angenrheidiol i'r staff, fel y soniwyd amdano yn niweddariad y PST; a sut y byddai gwaith craffu yn digwydd ar ariannu'r ganolfan yn y dyfodol.

9.4 Cadarnhaodd y PSTC Evans bod anghenion ailhyfforddi staff yr ochr weithredol wedi'u cynnwys yng nghynllun busnes y Ganolfan, a nododd y byddai cyfleoedd eto i ddod i newid dyluniad y Ganolfan er mwyn diwallu anghenion y Gwasanaeth. Y gobaith oedd y byddai'r Ganolfan yn dod yn ganolfan ragoriaeth o ran gweithio mewn partneriaeth, ac er nad oedd trafodaethau wedi'u cynnal hyd hynny, roedden nhw ar y gweill.

9.5 Gofynnwyd a oedd hi'n bosibl i'r tir gael ei ddefnyddio yn y tymor byr i hyfforddi staff, a rhoddodd y PSTC Evans gadarnhad nad oedd hyn yn bosibl ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd y gost ychwanegol a ddeuai yn sgil hynny.

9.6 Holodd Aelod a fyddai cymorth ariannol ar gael yn ganolog er mwyn helpu i ariannu datblygiad y Ganolfan, ac fe ymatebodd y Cadeirydd trwy ddweud ei fod wedi gofyn hyn i'r Gweinidog yn ystod y cyfarfod Partneriaeth Gymdeithasol diwethaf, a'i fod yn cael ei ystyried. Nid oedd unrhyw warant, fodd bynnag.

9.7 Dywedodd Aelod bod achos busnes y Ganolfan yn dangos ei bod yn gwbl angenrheidiol, a'i bod yn hanfodol i waith ymgysylltu gael ei wneud yn fuan er mwyn canfod a oes angen gwneud unrhyw addasiadau er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o weithio mewn partneriaeth, ac i ffynhonnell gyllid gael ei chanfod yn y maes hwn. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch mynd ar ofyn Awdurdodau Lleol i geisio rhagor o arian er mwyn talu am y Ganolfan.

9.8 Cadarnhaodd y PSTC Evans bod darn bach o'r tir wedi'i adael heb ei ddatblygu yn y cynlluniau, ac y gellid ei ddefnyddio er mwyn diwallu anghenion partneriaid os bydd angen.

9.9 Holodd un Aelod a oedd y Gwasanaeth yn credu y byddai'r targed sero-net erbyn 2030 yn cael ei gyrraedd, ynteu a fyddai angen ailosod offer newydd mewn gorsafoedd. Cadarnhaodd y PSTC Evans fod yr effeithiau ar yr amgylchedd yn cael eu hystyried ym mhob penderfyniad a wneir, a bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i gyrraedd y targed ar gyfer 2030.

9.10 Tynnodd un Aelod sylw at y ffaith nad oedd y ganolfan hyfforddi yn Nolgellau bellach yn addas, a'i bod yn bwysig cael y cyfleusterau gorau posibl ar gyfer staff yr ochr weithredol a oedd yn peryglu eu bywydau yn ddyddiol er budd y cyhoedd. Nodasant hefyd bod sefyllfaoedd ariannol Awdurdodau Lleol yn heriol iawn ar hyn o bryd, a bod gweithio mewn partneriaeth a'r ffrwd gyllid a allai ddod yn sgil hynny yn hollbwysig. Roedden nhw hefyd o'r farn bod angen rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i gael rhagor o gyllid.

9.11 Dywedodd y Trysorydd ei bod yn anodd cael cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf, ond er hyn eu bod wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn hyn o beth yn y gorffennol, felly nid oedd yn amhosibl. Roedd yr Aelodau'n credu y dylid adeiladu'r cynnig o gwmpas y syniad o arbed arian i sector y gwasanaethau brys yn yr hirdymor.

9.12 Gofynnodd Aelod a fyddai'r Ganolfan yn cael ei datblygu yn raddol, er mwyn sicrhau parhad pe na byddai'r cyfleusterau hyfforddi presennol ar gael i'w defnyddio. Cadarnhaodd y DBST fod rhai gwelliannau wedi'u gwneud i gyfleusterau hyfforddi Dolgellau, ac y gellid eu defnyddio tan fod y ganolfan newydd yn weithredol. Er hyn, mae'n bosibl y bydd datblygiad graddol yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod darpariaeth hyfforddi ar gael.

9.13 Gofynnwyd pam nad oedd y cyfleusterau hyfforddi presennol wedi cael eu datblygu dros y blynyddoedd er mwyn sicrhau eu bod yn addas, a holwyd a oedd cyfleusterau eraill yn yr ardal y gellid eu defnyddio yn hytrach na datblygu canolfan newydd o fewn y Gwasanaeth.

9.14 Ymatebodd y PST trwy ddweud bod y cyfleusterau presennol yn Nolgellau o fewn Parc Cenedlaethol, a bod cyfyngiadau ar y datblygiadau a ganiateir yno. Dylai'r prosiect i ddatblygu Canolfan newydd fod wedi'i ddechrau ddegawd yn ôl, ond roedd wedi cael ei ohirio dro ar ôl tro oherwydd cyfyngiadau ariannol. O ganlyniad, roedd y gwaith bellach yn gwbl angenrheidiol ac nid oes modd ei ohirio bellach.

9.15 Dywedodd y DBST Forshaw bod cyfleusterau hyfforddi i'w cael yn Swydd Gaer ac ym Manceinion Fwyaf, ond bod y cyfnodau pan allai Gwasanaethau eraill eu defnyddio i hyfforddi yn hynod brin. Roedd y Gwasanaethau sydd piau hwy angen hyfforddi eu staff eu hunain, a dim ond ar benwythnosau yr oedd y cyfleusterau ar gael y rhan fwyaf o'r amser, sy'n anaddas i'n hanghenion ni.

9.16 Dywedodd y PST y byddai'n amhosibl cael caniatâd cynllunio i addasu Gorsaf Dân Wrecsam, a hynny oherwydd y cyfyngiadau y byddai'n rhaid eu rhoi ar yr amseroedd pan fyddai caniatâd i hyfforddi.

9.17 Pwysleisiodd un Aelod y dylai Aelodau gofio mai yma i gynrychioli buddiannau'r Awdurdod y maen nhw yn y penderfyniad hwn, nid yma i gynrychioli eu hawdurdod lleol.

9.18 Gofynnwyd a fyddai'r newidiadau posibl i sut y caiff yr Awdurdod ei lywodraethu yn effeithio ar amserlen datblygu'r Ganolfan, ac fe atebodd y PST trwy ddweud na fyddai effaith. Eglurodd trwy ddweud y byddai angen o leiaf tair canolfan hyfforddi ar draws Cymru, a bod argymhellion y Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn nodi na ddylai staff orfod teithio am fwy nag awr i gael hyfforddiant, a bod hynny'n gyfyngiad arall ar y gallu i ddefnyddio canolfannau hyfforddi eraill.

9.20 Dywedodd y PSTC Evans mai'r her fwyaf o ran sicrhau caniatâd cynllunio yw'r ffaith bod madfallod dŵr yn bresennol; fodd bynnag, roedd camau lliniaru yn cael eu cymryd er mwyn datrys hyn, ac mewn sgyrsiau â'r bobl berthnasol, y teimlad oedd bod pethau'n edrych yn ffafriol o ran caniatâd cynllunio.

9.21 Ar y pwynt hwn, datganodd y Cynghorydd Mark Young a'r Cynghorydd Gareth Sandilands fuddiant o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn aelodau o Bwyllgor Cynllunio Sir Ddinbych.

9.22 **PENDERFYNWYD:**

- **i) cymeradwyo, mewn egwyddor, datblygu canolfan hyfforddi ganolog newydd (Opsiwn 3);**
- **ii) ymrwymo i gynnal y momentwm o ran datblygu'r cynigion, gan ganolbwyntio ar fforddiadwyedd ac opsiynau ariannu cynaliadwy;**
- **iii) awdurdodi'r Prif Swyddog Tân i fynd ar drywydd opsiynau ariannu cyfalaf, gan gynnwys hunanariannu, cymorth gan Lywodraeth Cymru, cynhyrchu incwm neu gyfleoedd cydweithredol gyda phartneriaid; a**
- **iv) dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Tân i fwrw ymlaen â chamau nesaf y prosiect.**

## 10 LLYWODRAETHU AWDURDODAU TÂN AC ACHUB GAN ARCHWILIO CYMRU

10.1 Cyflwynwyd Euros Lake o Archwilio Cymru i'r Aelodau. Cyflwynodd yntau adroddiad Archwilio Cymru ar sut y caiff Awdurdodau Tân ac Achub eu llywodraethu, gan egluro bod arolwg o drefniadau llywodraethu'r tri Awdurdod Tân ac Achub (ATA) yng Nghymru wedi cael ei gynnal fel rhan o raglen astudiaethau llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2023-24.

10.2 Rhoddwyd sylw i brif bwyntiau'r adroddiad, a nododd y Cadeirydd bod meysydd lle gwelwyd arfer da o fewn y Gwasanaeth; fodd bynnag, roedd meysydd eraill o ran craffu a herio a oedd angen cael eu datblygu.

10.3 Dywedodd y Clerc bod darpariaethau cynefino a hyfforddi'r Awdurdod eisoes yn dda, ond bod cynlluniau wedi'u creu i ddatblygu fframwaith ar gyfer asesu a diwallu anghenion hyfforddi'r Aelodau. Nododd hefyd bod yr awdurdodau lleol yn cydnabod yr angen am sefydlogrwydd o ran aelodaeth, a hynny er mwyn caniatáu i Aelodau feithrin arbenigedd yn y sector.

10.4 Roedd Aelod arall o'r farn y byddai'n bwysig i'r Awdurdod gael mewnbwn i'r model newydd. Cytunodd y PST â'r datganiad hwnnw, gan ddweud bod cais ffurfiol wedi'i wneud i gael cyfarfod rhwng Cadeiryddion a Phenaethiaid Awdurdodau Tân Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet, a hynny y tu allan i'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, er mwyn cael sgwrs agored ynghylch yr hyn y dylai'r trefniadau newydd fod, pa bethau ddylai gael eu cadw, a pha bethau yr oedd y Gweinidog eisiau eu hychwanegu. Gofynnwyd i'r Aelodau roi eu barn i'r Cadeirydd y tu allan i'r cyfarfod er mwyn eu cynnwys yn yr ymateb hwn.

10.5 Mynegodd un Aelod bryder y byddai gofyn am setiau penodol o sgiliau yn gallu rhwystro amrywiaeth; roedd Euros Lake yn cytuno â'r sylw hwn a dywedodd fod hyn wedi'i nodi o fewn eu hadroddiad.

10.6 Roedd consensws cyffredinol y byddai cyfethol Aelodau yn mynd yn groes i'r bwriad, ac na ddylid caniatáu i hynny ddigwydd.

10.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad.**

Cafwyd egwyl yn y cyfarfod am 11:10 a dechreuodd eto am 11:20

## 11 DATGANIAD O GYFRIFON 2023-24

11.1 Cyflwynodd Elgan Roberts y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2023-24 i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, a oedd yn cadarnhau barn archwilio ddiamod.

11.2 Croesawyd Carwyn Rees o Archwilio Cymru i'r cyfarfod, a gofynnodd i'w ddiolch i'r Adran Gyllid am eu gwaith caled gael ei nodi.

11.3 Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddatganiad o fewn yr adroddiad a oedd yn dweud nad oedd dau Aelod wedi cwblhau a dychwelyd eu ffurflenni Datgan Buddiant. Pwysleisiodd pa mor bwysig ydoedd i bob Aelod ddychwelyd y ffurflenni hyn pan fo gofyn iddyn nhw wneud.

11.4 Holodd y Cadeirydd ynghylch y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o £9.1m, gan ofyn a oedd hyn o fewn y trothwy a argymhellir. Y Trysorydd a atebodd, gan ddweud bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn uchel, ond mai cyllid cyfalaf a drosglwyddwyd oedd cyfran sylweddol o hynny. Rhoddodd Carwyn Rees ddolen i'r Aelodau yn y cyfarfod a oedd yn arwain at offeryn cynaliadwyedd y gallai Aelodau ei ddefnyddio i gymharu'r cronfeydd wrth gefn hyn â rhai sefydliadau eraill yn yr un sector.

11.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r sefyllfa a'r perfformiad alldro archwiliedig sydd o fewn Datganiad Cyfrifon 2023/24 (Atodiad 1);**
**ii) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 2);**
**iii) nodi'r llythyr cynrychiolaeth a gynigir, gan gynnwys y camddatganiad heb ei gywiro; a**
**iv) chadarnhau'r argymhelliad i gymeradwyo fersiwn derfynol Datganiad Cyfrifon 2023/24 wedi'i archwilio.**

## 12 DIWEDDARIAD ARIANNOL 2024–25

12.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod, y Diweddariad Ariannol ar gyfer 2024-25 a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau o ran y rhagolwg ar wariant refeniw a chyfalaf ar gyfer 2024/25, fel yr oedd ar 30 Medi 2024.

12.2 Gofynnwyd a fyddai unrhyw risg yn gysylltiedig â chynlluniau'r Llywodraeth i gynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr o fewn y gyllideb. Cadarnhaodd y Trysorydd y byddai risg, ond y byddai'n cael ei chynnwys o fewn cyllideb y flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur fod effaith bosibl y cynnydd wedi'i chynnwys, a bod y llywodraeth ganolog yn cael ei lobïo am arian ychwanegol.

12.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r tanwariant refeniw a ragwelir a'r llithriad cyfalaf a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, fel y manylir yn yr adroddiad; a**
**ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant, materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi, a'r her gyfreithiol, lle mae natur y ffigurau a ragwelir yn yr adroddiad hwn yn ddarbodus.**

## 13 PENNU CYLLIDEB 2025-26

13.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur bapur i'r Aelodau a oedd yn amlinellu proses y gyllideb, rhagdybiaethau cynllunio, ac amserlenni ar gyfer pennu cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2025/26.

13.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r gweithgor Craffu ar y Gyllideb am eu cyfraniad i'r broses o bennu cyllideb.

13.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26;**
**ii) nodi cylch gwaith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb a sefydlwyd gan y Pwyllgor Archwilio a'r amserlen adrodd arfaethedig;**
**iii) nodi'r cynnig i ddarparu amcangyfrifon cyllideb cychwynnol i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2023; a**
**iv) nodi'r cynnig i geisio cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer cyllideb refeniw 2025/26 yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025.**

## 14 ASESIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023-24

14.1 Cyflwynodd y Rheolwr Ardal Anthony Jones yr asesiad blynyddol o berfformiad yr Awdurdod wrth gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant a'i Amcanion Cydraddoldeb tymor canolig yn ystod 2023/24, er mwyn i'r Aelodau ei gymeradwyo.

14.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu gwaith wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn, yr oedd y Panel Gweithredol eisoes wedi craffu arno ac wedi'i gymeradwyo.

14.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer cyfnod 2023/24; a**
**ii) chymeradwyo Asesiad Perfformiad Blynyddol 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Tân ac Achub.**

## 15 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2023-24

15.1 Cyflwynodd y PSTC Jones y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Awdurdod, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Cadarnhawyd bod drafft ohono wedi'i gyflwyno i Archwilio Cymru cyn 31 Mai 2024, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth uchod.

15.2 Nododd y Cadeirydd bod creu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ofyniad cyfreithiol, a bod Archwilio Cymru eisoes wedi ei lofnodi.

15.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24;**
**ii) nodi rhaglen waith 2024/25; a**
**iii) chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 31 Hydref 2024.**

## 16 SAFONAU'R GYMRAEG 2023-24

16.1 Cyflwynodd Natalie Jones, Swyddog Iaith Gymraeg, yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2023/24 er mwyn i'r Aelodau ei gymeradwyo. Roedd yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau 155, 161, ac 167, sy'n manylu'r gofyniad ar yr Awdurdod i gynhyrchu adroddiad monitro bob blwyddyn ariannol.

16.2 Roedd yr aelodau yn awyddus i longyfarch yr Adran am eu hymdrechion yn y maes pwysig hwn, a'r Awdurdod am eu hymroddiad i'r Gymraeg.

16.3 Gofynnodd un Aelod sut oedd y rhaglen hyfforddi yn cael ei monitro er mwyn sicrhau bod staff yn dysgu Cymraeg i'r lefel ofynnol. Rhoddodd y Swyddog Iaith Gymraeg gadarnhad bod cyfleoedd cyson iddynt fireinio eu sgiliau iaith, a bod cofnodion yn cael eu cadw a'u hadolygu yn flynyddol.

16.4 Ychwanegodd y DBST Forshaw bod llawer iawn o waith wedi cael ei wneud er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth, a bod adborth wedi'i roi i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel rhan o'r broses fonitro. Gofynnodd y PSTC MacArthur hefyd i'r Aelodau nodi bod gofynion y Gymraeg yn rhan o gyfnod prawf pob aelod newydd o staff.

16.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod; a**
**ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i roi cyhoeddusrwydd i'r ddogfen fel y nodir yn Safonau 155, 161,167.**

## 17 CYNLLUN GWEITHREDU RHEOLI RISG CYMUNEDOL DRAFFT 25/26

17.1 Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft ar gyfer 2025–26 i'r Aelodau gan y PSTC Anthony Jones, ac fe ddywedodd wrth yr Aelodau bod y Gwasanaeth yn ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynigion ar gyfer amcanion gwella a llesiant.

17.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad; a**
**ii) chymeradwyo Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft 2025/26 ar gyfer ymgynghoriad ag Aelodau'r Awdurdod, staff, undebau llafur perthnasol, budd-ddeiliaid a'r cyhoedd cyn ei gymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth 2025.**

## 18 CYNLLUN DATGARBONEIDDIO GWRESOGI

18.1 Cyflwynwyd y Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi gan y PSTC Justin Evans. Roedd y cynllun yn nodi mesurau ac amserlenni manwl i liniaru'r allyriadau carbon sy'n deillio o wresogi'r ystad ar gyfer y cyfnod hyd at 2030.

18.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi.**

## 19 CWYNION, DATGELIADAU ER BUDD Y CYHOEDD A DATGANIADAU O WERTHFAWROGIAD

19.1 Rhoddodd y PSTC Helen MacArthur ddiweddariad i'r Aelodau ar gŵynion a datganiadau o werthfawrogiad allanol a gafodd y Gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

19.2 Nododd y Cadeirydd mai trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol y byddai aelodau'r cyhoedd yn debygol iawn o fynegi eu gwerthfawrogiad o'r Gwasanaeth, ac nad oedd y ffigyrau yn adlewyrchu'r negeseuon hynny.

19.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 20 MATERION BRYS

20.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 20 Ionawr 2025.

**Daeth y cyfarfod i ben: 11:43**

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Ionawr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.gov.wales) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

**3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:**

**i) nodi'r wybodaeth a roddwyd.**

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cwrdd â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.

6 Ar 3 Hydref aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i'r Seremoni Wobrwyo ar gyfer staff GTAGC a gynhaliwyd yn Venue Cymru.

7 Ar 7 Hydref aeth y Cadeirydd a'r PST i gyfarfod o'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol a gynhaliwyd o bell.

8 Ar 11 Hydref aeth y Dirprwy Gadeirydd i Seremoni Dathlu Cyflawniad yng Ngorsaf Dân yr Wyddgrug ar gyfer y bobl ifanc hynny o Ysgol Castell Alun a oedd wedi cwblhau Cwrs y Ffenics yn llwyddiannus.

9 Ar 18 Hydref aeth y Dirprwy Gadeirydd i Seremoni Dathlu Cyflawniad yng Ngorsaf Dân yr Wyddgrug ar gyfer y bobl ifanc hynny o Ysgol Uwchradd Argoed a oedd wedi cwblhau Cwrs y Ffenics yn llwyddiannus.

10 Ar 30 Hydref roedd y Cadeirydd yn bresennol mewn cyfarfod rhithwir gydag Archwilio Cymru fel rhan o'u hadolygiad i osod amcanion llesiant.

11 Ar 13 Tachwedd ymwelodd y Cadeirydd â'r criw yng Ngorsaf Dân Llangefni oedd yn cynnal digwyddiad recriwtio.

12 Ar 15 Tachwedd aeth y Cadeirydd i Seremoni Dathlu Cyflawniad yng Ngorsaf Dân Porthaethwy ar gyfer y bobl ifanc hynny o Ysgol David Hughes a oedd wedi cwblhau Cwrs y Ffenics yn llwyddiannus.

13 Ar 21 Tachwedd aeth y Dirprwy Gadeirydd i angladd cyn-aelod o'r Awdurdod, y Cynghorydd Veronica Gay.

14 Ar 22 Tachwedd aeth y Cadeirydd i Seremoni Dathlu Cyflawniad yng Ngorsaf Dân Porthaethwy ar gyfer y bobl ifanc hynny o Ysgol Brynrefail a oedd wedi cwblhau Cwrs y Ffenics yn llwyddiannus.

15 Ar 25 Tachwedd aeth y Cadeirydd i gyfarfod o'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru (roedd y PST hefyd yn bresennol yn rhithiol).

16 Ar 29 Tachwedd, roedd y Cadeirydd a'r PST yn bresennol mewn cyfarfod rhithiol o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

17 Ar 4 Rhagfyr, roedd y Cadeirydd yn bresennol mewn cyfarfod rhithiol gyda Jayne Bryant, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, ynghyd â Chadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ogystal â'r tri PST ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru.

18 Ar 6 Rhagfyr aeth y Dirprwy Gadeirydd i Seremoni Dathlu Cyflawniad yng Ngorsaf Dân Abergele ar gyfer y bobl ifanc hynny o Ysgol Emrys ap Iwan a oedd wedi cwblhau Cwrs y Ffenics yn llwyddiannus.

19 Ar 9 Rhagfyr aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i Wasanaeth Carolau'r Nadolig y Gwasanaethau Brys yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy.

20 Ar 11 Rhagfyr aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i Bencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) a chyfarfod ag uwch swyddogion i archwilio'r Gofrestr Risg Strategol.

21 Ar 25 Rhagfyr ymwelodd y Cadeirydd â'r gwylfeydd ar ddyletswydd yng Ngorsafoedd Tân Caernarfon a Chaergybi tra ymwelodd y Dirprwy Gadeirydd â'r wylfa yng Ngorsaf Dân Glannau Dyfrdwy.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Ionawr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthw** |
| Pwnc | **Diweddariad ar yr Adolygiad Annibynnol o'r Diwylliant** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi adroddiad cynnydd i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar yr adolygiad diwylliannol a gomisiynwyd gan y cwmni ymgynghori annibynnol Crest Advisory ym mis Gorffennaf 2024.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu pryder ynghylch meithrin diwylliant cadarnhaol ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi bod ar ei daith ddiwylliannol ei hun yn ystod y tair blynedd diwethaf ac yn dilyn cyhoeddi'r adolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC), cytunwyd gyda'r Dirprwy Weinidog y dylid comisiynu adolygiad i ddeall lle mae'r Gwasanaeth ar y daith honno ac i lunio argymhellion i barhau ar y trywydd gwelliant hwnnw.

3 Mae adolygiad annibynnol wedi'i gynnal gan Crest Advisory a bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 27 Ionawr 2025.

## ARGYMHELLIAD

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi cynnydd yr Adolygiad Annibynnol o'r Diwylliant a'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi sydd yn yr adroddiad; a

ii) chytuno i enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod i fynd i weminar gyda Crest i drafod canfyddiadau'r adolygiad ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.

**CEFNDIR**

5 Ar ôl iddi gael ei phenodi ym mis Gorffennaf 2021, cychwynnodd y Prif Swyddog Tân (PST) ar daith gynhwysfawr, gan ymweld â phob gorsaf dân ac adran i siarad yn uniongyrchol â gweithwyr a'u cynrychiolwyr. Roedd ei hasesiad o'r sefyllfa, a gyflwynwyd i Aelodau'r Awdurdod ym mis Medi 2021, yn nodi risgiau allweddol gan gynnwys argaeledd diffoddwyr tân mewn ardaloedd gwledig, darpariaeth hyfforddiant a chapasiti corfforaethol.

6 Er na chafodd y diwylliant ei amlygu fel mater pwysig i ddechrau, cefnogodd yr Aelodau gynnig y PST am arolwg annibynnol o'r diwylliant a elwir yn Arolwg Staff Teulu Tân, a roddodd asesiad sylfaenol o ddiwylliant o fewn y Gwasanaeth.

7 Lluniwyd cynllun gweithredu yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg gwreiddiol 2021 gan arwain at ymdrechion sylweddol i wella diwylliant y sefydliad. Yna cafodd y cynnydd a wnaed dros gyfnod o 24 mis ei ailasesu drwy Arolwg Staff Teulu Tân annibynnol arall ym mis Medi 2023, a rhoddwyd gwybod am y canfyddiadau mewn Seminar Ddiwylliannol i'r Aelodau ym mis Chwefror 2024.

8 Yn y cyfamser, ar 3 Ionawr 2024, cyhoeddwyd yr Adolygiad Annibynnol o Ddiwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Mewn ymateb i'r canfyddiadau hynny, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog, Hannah Blythyn, y byddai Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cael ei ddileu ac y byddai pedwar Comisiynydd yn cael eu penodi yn ei le.

9 Yn dilyn y camau Gweinidogol hynny, cyfarfu Cadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân â'r Dirprwy Weinidog ar y pryd a'i swyddogion i drafod y cynnydd a wnaed o ran diwylliant o fewn y Gwasanaeth. Roedd y Dirprwy Weinidog wedi cyfarfod â gweithwyr y Gwasanaeth yn ffurfiol ac yn anffurfiol o'r blaen ac roedd wedi dod i'r farn bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) mewn lle gwahanol i GTADC o ran eu teithiau diwylliannol.

10 Mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Weinidog, awgrymodd GTAGC a GTACGC y dylent ill dau gomisiynu adolygiad allanol arall gan arbenigwr diwylliant sefydliadol. Cytunwyd ar gylch gwaith yr adolygiadau hyn yn seiliedig ar ddatganiad y Dirprwy Weinidog yn y Senedd.

**GWYBODAETH**

11 Yn dilyn ymarfer caffael, penodwyd Crest Advisory ym mis Gorffennaf 2024 i gynnal dau adolygiad annibynnol ar wahân yn GTAGC a GTACGC.

12 Dechreuodd y gwaith a wnaed gan Crest Advisory gydag adolygiad o’r ddogfennaeth ac yna adolygiad bwrdd gwaith o'r prosesau sy'n ymwneud â rheoli pobl.

13 Fe wnaethant drefnu arolwg staff a chyflwyniadau ysgrifenedig ar gyfer yr holl weithwyr a'r cyn-weithwyr hynny a oedd wedi gweithio i'r Gwasanaeth o fewn y tair blynedd diwethaf.

14 Rhoddwyd cyfle i staff a chyn-aelodau cymwys o staff gymryd rhan mewn cyfweliadau unigol a grwpiau ffocws cyfrinachol. Cynhaliwyd y rhain yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2024. Mynegodd 59 o bobl ddiddordeb a chafodd pob un ohonynt eu cynnwys.

15 Mae adroddiad wedi'i ddrafftio yn seiliedig ar eu canfyddiadau yn ystod y cyfnod hwn a bydd yr adroddiad terfynol a'r meysydd i'w gwella a nodwyd gan Crest, yr arbenigwr diwylliant annibynnol, yn cael eu cyhoeddi ar 27 Ionawr 2025. Mae'n debygol o ennyn rhywfaint o ddiddordeb yn y cyfryngau ac felly rydym wedi trefnu cyfathrebu allanol a mewnol ar y diwrnod hwnnw ar y cyd â phartneriaid fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Llywodraeth Cymru.

16 Mae’n bwysig nodi ein bod wedi rhoi cefnogaeth helaeth ar waith i'r gweithwyr hynny y gallai'r canfyddiadau effeithio arnynt.

17 Bydd Crest Advisory yn cyflwyno eu canfyddiadau i Aelodau'r Awdurdod a Llywodraeth Cymru, a gofynnir i'r Aelodau sicrhau eu bod ar gael ar gyfer y cyfle hwn ddechrau mis Chwefror. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i feithrin diwylliant cadarnhaol o fewn y Gwasanaeth sy'n ein galluogi i wasanaethu ein cymuned gyda balchder a phroffesiynoldeb.

**GOBLYGIADAU**

| Amcanion Llesiant | |
|---|---|
| Cyllideb | Ni chafodd cost yr adolygiad ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn bwysau ychwanegol ar gyllideb 2024/25. |
| Cyfreithiol | Comisiynwyd yr adolygiad hwn gan y Gwasanaeth ac nid yw'n rhan o unrhyw drefniadau arolygu cenedlaethol. |
| Staffio | Mae staff wedi'u neilltuo o'u dyletswyddau i gefnogi'r adolygiad. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei ystyried fel buddsoddiad ar gyfer dyfodol y Gwasanaeth. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r adolygiad wedi'i gynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog. |
| Risgiau | Mae yna gydbwysedd cydnabyddedig rhwng y risgiau tymor byr posibl o ran cyllid ac enw da a'r risgiau hirdymor o ran y gweithlu. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Ionawr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Alldro Dros Dro 2024/25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y rhagolwg gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2024/25, fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2024.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Cafodd y gofyniad cyllideb net ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymry (yr Awdurdod) yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. Cadarnhaodd hyn ofyniad net o £48.322 miliwn i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Er mwyn capio gofyniad y gyllideb ar £48.322m, cymeradwyodd yr Awdurdod rai mesurau anghylchol, gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn.

3 Yn y flwyddyn gyfredol, mae cyllid o £0.227 miliwn wedi'i dderbyn gan yr awdurdodau lleol fel Grant SCAPE atodol, oherwydd cyllid rhannol drwy'r ardoll sydd wedi'i gynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2024/25. Yn ogystal, mae grant o £0.208 miliwn gan Lywodraeth Cymru wedi'i dderbyn i gefnogi pwysau cyflogau yn ystod 2024/25.

4 Bellach rhagwelir y bydd y gwariant gwirioneddol yn £47.803m, sy'n cynnwys costau sy'n ymwneud ag amrywiol brosiectau, setliadau cyflog cenedlaethol a symud i gronfeydd wrth gefn.

5 Cymeradwyodd yr Awdurdod gyllideb gyfalaf 2024/25, sef £5.676m, ar 22 Ionawr 2024. Yn ogystal, mae cyllid treigl o £1.110m o flynyddoedd blaenorol. Mae llithro o ran cynlluniau yn y rhaglen gyfalaf, a rhagwelir y bydd gwariant yn £4.403m a gofyniad i dreiglo cyllid o £1.379m ymlaen.

## ARGYMHELLION

6 Gofynnir i’r Aelodau:

**i) nodi’r sefyllfa alldro refeniw a ragwelir a'r llithriad cyfalaf a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, fel y nodir yn yr adroddiad;**
**ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r alldro dros dro a chydnabod bod y ffigurau a ragwelir yn yr adroddiad hwn yn ddarbodus; a**
**iii) nodi’r symud arfaethedig o £0.070m i gronfeydd wrth gefn ar gyfer llithriad ar wariant nad yw ar gyflogau sy'n ymwneud ag offer gweithredu.**

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

7 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o’r blaen.

## CEFNDIR

8 Bob blwyddyn, mae’n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys a rhaid i’r Awdurdod llawn ei chymeradwyo. Cafodd y gyllideb derfynol ar gyfer 2024/25 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. Cadarnhaodd hyn ofyniad cyllideb refeniw net o £48.322 miliwn i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

9 Wrth bennu’r gyllideb, fe wnaeth yr Aelodau hefyd gymeradwyo ystod o fesurau anghylchol sy’n angenrheidiol i sicrhau cydbwysedd ariannol o fewn 2024/25, a oedd yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn.

10 Cyflwynwyd y cynllun cyfalaf o £5.676m i'r gweithgor craffu ar y gyllideb Aelodau a chafodd ei gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. Cymeradwywyd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2034 yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2024 ac fe’i cadarnhawyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2024.

11 Mae’r adroddiad monitro cyllideb hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa alldro gwariant refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

## GWYBODAETH

## Y GYLLIDEB REFENIW

12 **Cyflog:** Costau gweithwyr yw dros 70% o’r gwariant gros, ac mae cyllideb staffio 2024/25 yn £35.430m, gan gynnwys y mesurau a gymerwyd wrth bennu’r gyllideb i gadw’r gwariant o fewn y ffigwr a gymeradwywyd. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bryd hynny fod y trafodaethau cyflog cenedlaethol ar gyfer yr holl staff yn dal i fynd rhagddynt.

13 Roedd y broses o bennu'r gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth y byddai'r dyfarniadau cyflog ar gyfer 2024/25 i'r holl staff yn 4%. Canlyniad dyfarniad cyflog Ebrill 2024 ar gyfer staff llywodraeth leol oedd cynnydd o £1,290 ar bwyntiau cyflog 2 i 43 y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC), gan gynnwys y ddau bwynt hynny, a 2.5% ar bob pwynt cyflog uwchlaw 43.

14 Cafodd dyfarniad cyflog y diffoddwyr tân ei setlo ym mis Mai 2024 a chadarnhawyd bod 4% wedi'i dderbyn o 1 Gorffennaf 2024 ymlaen. Bydd newidiadau manwl i strwythur ffioedd cadw'r system dyletswydd ar alwad yn cael eu rhoi ar waith o 1 Ionawr 2025.

15 **Costau nad ydynt yn gyflogau:** Mae'r rhagolygon ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn cyfrif am gostau hysbys ac unrhyw ostyngiadau mewn gwariant. Fodd bynnag, mae ansicrwydd yn parhau oherwydd y rhagolygon economaidd cyffredinol a heriau'r gadwyn gyflenwi.

16 **Incwm:** Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu o ardoll yr awdurdodau cyfansoddol, daw incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, yn ogystal ag ad-daliadau gan gyrff eraill mewn perthynas â'r defnydd o'n hadeiladau. Yn ogystal, mae'r Awdurdod wedi elwa yn sgil incwm ychwanegol o secondiadau a grant untro gan Lywodraeth Cymru i gefnogi chwyddiant cyflogau ar gyfer 2024/25 ac addysg ynghylch y cyfyngiadau cyflymder 20 milltir yr awr yng Nghymru.

17 **Cost refeniw cyfalaf:** Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf. Rhagwelir y bydd tanwariant yn y gyllideb hon oherwydd yr oedi wrth gwblhau prosiectau cyfalaf.

## RHAGOLWG ALLDRO REFENIW 2024/25

18 Ar y cam hwn o'r flwyddyn ariannol mae nifer o risgiau ac ansicrwydd yn parhau, a allai effeithio ar berfformiad ariannol yr Awdurdod. Rhagwelir y gallai'r alldro amrywio o bwynt adennill costau i danwariant o £1m cyn trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Fodd bynnag, yn seiliedig ar wariant y flwyddyn hyd yma, mae'r rhagolwg refeniw blwyddyn lawn mwyaf tebygol ar 31 Rhagfyr 2024 wedi'i nodi isod, ac mae'n dangos tanwariant o £0.519m.

| | Cyllideb (£m) | Rhagolwg (£m) | Amrywiant (£m) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 35.430 | 34.287 | (1.142) | -3.22% |
| Eiddo | 3.530 | 3.347 | (0.183) | -5.19% |
| Cludiant | 1.259 | 1.336 | 0.078 | 6.16% |
| Cyflenwadau | 6.622 | 6.910 | 0.288 | 4.35% |
| Taliadau Trydydd Parti | 0.363 | 0.399 | 0.036 | 10.02% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 2.989 | 2.989 | 0.000 | 0.00% |
| Incwm | (0.946) | (1.535) | (0.589) | 62.26% |
| Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn | (0.924) | 0.070 | 0.994 | -107.58% |
| **Alldro a Ragolygir** | **48.322** | **47.803** | **(0.519)** | **-1.07%** |

19 Mae ansicrwydd ynghylch costau Firelink, oherwydd her gyfreithiol genedlaethol barhaus. Os bydd yr her gyfreithiol yn cael ei dyfarnu o blaid y sector, bydd costau'r flwyddyn yn lleihau o £0.500m. Gan nad yw'n glir a fydd y mater hwn yn cael ei setlo cyn diwedd y flwyddyn, bydd cronfa wrth gefn wedi'i neilltuo yn cael ei sefydlu. Os bydd y mater yn cael ei setlo o blaid y sector, bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio i gefnogi costau gweithredu'r Rhwydwaith Gwasanaeth Brys newydd.

**COSTAU GWEITHWYR**

20 Mae costau cyflogeion yn rhan sylweddol o'r gyllideb (dros 72% o'r costau gros) ac yn cynnwys cyflogau, costau pensiwn, costau recriwtio a hyfforddi, a gwasanaethau ar gyfer cyflogeion, megis gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

21 Mae camau'n parhau i gael eu cymryd i gynyddu nifer y diffoddwyr tân dyletswydd ar alwad, a hynny er mwyn mynd i'r afael â materion argaeledd ac i gynnal argaeledd. Ar adeg pennu'r gyllideb ar gyfer 2024/25 roedd 474 o bersonél y system dyletswydd ar alwad, a gwnaed darpariaeth bellach i gynyddu capasiti'r system dyletswydd ar alwad drwy gynnydd o 30 ar gost o £0.413m. Roedd hyn yn adlewyrchu'r gwelliannau a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gynyddu capasiti'r system dyletswydd ar alwad a darparu'r cyflenwad y mae mawr ei angen. Fodd bynnag, fel y gwelir o'r tabl isod mae hyn wedi parhau i fod yn her sylweddol gyda'r niferoedd gwirioneddol yn gostwng yn is na'r gyllideb wreiddiol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Yn ystod mis Medi 2024, yn dilyn recriwtio llwyddiannus, mae'n braf nodi bod y niferoedd wedi cynyddu, er bod tanwariant sylweddol yn y gyllideb lawn.

| Dadansoddiad o'r system dyletswydd ar alwad | Cyllideb 2024/25 | Ebrill-24 | Gor-24 | Medi-24 | Rhag-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 474 | 459 | 465 | 487 | 492 |
| Cyfateb i 100% | 378 | 365 | 367 | 385 | 386 |


22 Mae'r tanwariant yng nghyllideb staff y system dyletswydd ar alwad yn adlewyrchu'r anawsterau recriwtio a chadw a'r amrywiadau yn y cyflog amrywiol, gan gynnwys ffioedd ymarferiadau, lwfansau hyfforddi a gweithgarwch.

23 O fewn y grŵp staff sy'n ymwneud â staff gweithredol amser cyflawn, bu nifer uwch na'r disgwyl o ymddeoliadau, gan arwain at swyddi gwag o fewn y gweithlu gweithredol. Cymerwyd mesurau recriwtio i fynd i'r afael â'r diffyg hwn, er y rhagwelir tanwariant. Fodd bynnag, oherwydd yr angen i gynnal capasiti gweithredol a darparu hyfforddiant, bu'n rhaid defnyddio goramser.

24 Mae'r anhawster i recriwtio i swyddi arbenigol o fewn yr adrannau corfforaethol wedi parhau yn ystod 2024/25 a rhagwelir tanwariant blwyddyn lawn.

25 Mae'r adolygiad a'r ailstrwythuro arfaethedig ar yr adran diogelwch tân wedi'i ohirio tan 2025/26 er mwyn galluogi asesu capasiti o fewn y criwiau gweithredol.

26 Y gwariant cyffredinol a ragwelir ar gyfer costau gweithwyr yw £34.287m, sef tanwariant o £1.142m, ac mae'r symudiadau allweddol wedi'u dadansoddi isod:




## COSTAU NAD YDYNT YN GYFLOGAU

27 Rhagwelir y bydd Gorwariant o £0.218m yn y gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau, sy'n cynnwys Adeiladau, Cyflenwadau Trafnidiaeth, Taliadau Trydydd Parti, a Chyllid Cyfalaf a Thaliadau.


28 Mae gwariant nad ydyw ar gyflogau yn cael ei adolygu’n barhaus gan ddeiliaid y gyllideb, a hynny er mwyn sicrhau bod y blaenamcanion yn parhau i fod yn rhesymol ac er mwyn rheoli costau na ellir eu hosgoi. Mae'r rhagolwg yn cynnwys costau ychwanegol ar gyfer treuliau cerbydau (£0.078m), Offer Gwarchod Personol o’r stoc (£0.380m), a chynnydd yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (£0.036m), tra bod arbedion o'r adolygiad o gontractau yn dod i £0.080m.

29 Gwelir y gostyngiad mwyaf o ran costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau o fewn cyfleusterau, lle mae'r costau wedi gostwng £0.183m. Mae hyn oherwydd bod yr Awdurdod yn elwa o amodau marchnad ffafriol ac apeliadau llwyddiannus yn erbyn gwerthoedd ardrethol ar gyfer ardrethi annomestig cenedlaethol.

30 Mae’r costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau wedi gostwng £70k oherwydd y llithro o ran amnewid offer hydrolig Holmatro sy'n annhebygol o gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, symudwyd yr arian i’r cronfeydd wrth gefn i ariannu'r gwariant yn 2025/26.

31 Mae'r rhagolwg yn cynnwys arbedion un tro gan fod gwaith arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r fflyd forol wedi’i ohirio tan y flwyddyn nesaf. Mae'r gostyngiadau yn y rhagolwg TGCh, gan gynnwys arbedion o £0.112m sy’n deillio o adnewyddu contractau, wedi galluogi i gostau o tua £0.100m, sy'n deillio o'r adolygiad allanol o’r diwylliant, gael eu talu o’r adnoddau ariannol presennol.

32 Mae'r gost a ragwelir ar gyfer cyllid cyfalaf yn cyd-fynd â'r gyllideb ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae rhywfaint o lithriad o fewn y cynllun cyfalaf a fydd yn effeithio ar sefyllfa’r alldro. Mae gwaith craffu parhaus ar y rhaglen gyfalaf ar waith, er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol.




**INCWM**

33 Yn ogystal â'r ardoll awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys incwm a ragwelir o ffioedd, taliadau a grantiau, sy'n ymwneud yn bennaf â'r ad-daliadau ar gyfer adeiladau a rennir ag endidau eraill a chytundebau lefel gwasanaeth gyda sefydliadau gwahanol.

34 Mae'r Awdurdod wedi derbyn incwm gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r ddarpariaeth addysg i yrwyr sy'n mynd y tu hwnt i'r terfynau cyflymder 20mya a gyflwynwyd yn ddiweddar, a chyllid grant i gefnogi pwysau cyflogau ar gyfer 2024/25. Mae incwm ychwanegol hefyd wedi'i ganfod yn dilyn gwerthu cerbydau, a'r balans sy'n weddill o £0.227m ar gyfer SCAPE sydd wedi'i drosglwyddo gan Awdurdodau Lleol.

35 Mae'r Incwm £0.362m yn fwy na'r gyllideb, a gwelir y manylion isod.




**RHAGLEN GYFALAF**

36 Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf o £5.676m ym mis Ionawr 2024, gydag £1.1m ohono'n gyllid treigl o flwyddyn ariannol 2023/24.

37 Oherwydd oedi parhaus, mae'r gwariant cyfalaf hyd yma yn £1.138m a'r blaenamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn yw £4.403m.

38 O ystyried y llithriad cyfalaf, rhagwelir cais am gyllid treigl o £1.379m. Ceir rhagor o fanylion isod:

| Enw/Disgrifiad o'r Prosiect | Cyllideb £'000 | Gwirioneddol £'000 | Rhagolwg £'000 | Cyllid Treigl £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gweinydd TGCh ac uwchraddio Offer anfon allan | 827 | | 227 | 591 |
| Tyrau hyfforddi | 305 | 36 | 314 | |
| Gwella gorsafoedd | 1,100 | 467 | 672 | 428 |
| Gwaith cynaliadwyedd | 469 | | 470 | |
| Gwella Cyfleusterau Hyfforddi | 300 | | | 300 |
| Peiriannau Tân | 426 | 229 | 533 | |
| Cerbydau Ysgafn | 166 | 194 | 165 | |
| Cerbydau Ysgafn Arbenigol | 632 | 201 | 572 | 60 |
| Offer yr Ochr Weithredol | 290 | | 290 | |
| Offer Fflyd | 50 | | 50 | |
| **Cyllid Treigl o 2023/24** | | | | |
| Peiriannau Tân | 960 | | 960 | |
| Gwaith cynaliadwyedd | 150 | 12 | 150 | |
| **Cyfanswm** | **5,676** | **1,138** | **4,403** | **1,379** |

39 Nodir yr arian a ragwelir ar gyfer gwariant cyfalaf isod:

| Cyllid | Swm £m |
|---|---|
| Benthyca | 3.676 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi | 0.727 |
| **Cyfanswm** | **4.403** |

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei phennu bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodir. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu'n briodol i'r Aelodau. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Ionawr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Polisi a Chynllunio Corfforaethol** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a sefydlwyd mewn ymateb i'r penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023. Pwrpas y grŵp hwn oedd ymchwilio i opsiwn parhaol newydd i wella'r ddarpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru, a datblygu'r opsiwn hwnnw.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Cadeiriwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys gan Reolwr Gwylfa o Orsaf Dân Glannau Dyfrdwy, ac roedd y Dirprwy Gadeirydd yn Rheolwr Gwylfa o Orsaf Dân y Rhyl. Roedd y Grŵp yn cynnwys 16 o gydweithwyr yn gweithio ar wahanol lefelau ac mewn gwahanol orsafoedd ac adrannau ar draws Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), gan gynnwys cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân. Fe wnaethant gyfarfod ar 12 achlysur rhwng mis Chwefror a mis Tachwedd 2024, ac yn ystod y cyfnod hwnnw buont yn trafod ac yn ymchwilio i sawl model ymateb brys.

3 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 15 Gorffennaf 2024, cyflwynwyd adroddiad cynnydd i'r Aelodau a chytunwyd i Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ymchwilio ymhellach i fodelau dau a thri, neu amrywiadau arnynt.

4 Erbyn 10 Tachwedd 2024, daeth cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân i'r casgliad na fyddai model 2 yn gweithio, a bu iddynt dynnu'n ôl ar lafar o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 11 Tachwedd 2024.

5 Ar 17 Rhagfyr 2024, cyfarfu'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân ag arweinwyr y ffrydiau gwaith a Chadeirydd Undeb y Brigadau Tân i gadarnhau'r sefyllfa hon ac i ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu gwaith caled a'u diwydrwydd.

## ARGYMHELLIAD

6 Bod yr Aelodau'n:

i) Nodi bod swyddogion yn parhau i weithio gyda staff a chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu modelau ymchwil dau a thri Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, neu amrywiadau arnynt.
ii) Nodi'r casgliad y cytunwyd arno na fydd y system ddyletswydd pum gwylfa yn gweithio yng Ngogledd Cymru ac, o ganlyniad, bod Undeb y Brigadau Tân wedi tynnu'n ôl a bod y grŵp gorchwyl a gorffen yn dod i ben.
iii) Gwerthfawrogi ymdrechion a chyfraniad Aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.
iv) Gofyn i swyddogion barhau i lunio a phrofi atebion amgen gyda'r cyrff cynrychioliadol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, i fynd i'r afael â'r ddarpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.

## CEFNDIR

7 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, ymgynghorodd yr Awdurdod â'r cyhoedd ar dri opsiwn posibl ar gyfer darparu ei ymateb brys i gymunedau Gogledd Cymru yn y dyfodol.

8 Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd, cyfarfu'r Awdurdod Tân ar 18 Rhagfyr 2023 a daeth i'r casgliad hwn:

*Gofynna'r Aelodau i'r Swyddogion barhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid er mwyn datblygu opsiwn newydd parhaol, gan ystyried y penderfyniad a wnaed heddiw a chyfyngiadau'r gyllideb arfaethedig.*

9 Felly, gofynnwyd am fynegiadau o ddiddordeb gan staff sy'n gweithio ar bob lefel ar draws holl adrannau, gorsafoedd a systemau dyletswydd y Gwasanaeth, ac ym mis Ionawr 2024 sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Mae Undeb y Brigadau Tân hefyd wedi'i gynrychioli ac wedi bod yn bresennol ym mhob cyfarfod.

10 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 15 Gorffennaf 2024, cyflwynwyd adroddiad cynnydd i'r Aelodau a chytunwyd y byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn ymchwilio ymhellach i fodelau dau a thri, neu amrywiadau arnynt.

## GWYBODAETH

11 Cynhaliodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ei gyfarfod cyntaf ar 1 Chwefror 2024 ac ers hynny mae wedi cyfarfod ar 12 achlysur, gan drafod y model ymateb presennol yn fanwl ac archwilio dulliau arloesol o ddarparu model ymateb brys tecach yn y dyfodol.

12 Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi cael ei gefnogi gan adrannau'r Gwasanaeth yn ôl yr angen, wedi cael mynediad at ddata ymateb brys a modelu a hefyd wedi cael cyflwyniadau ar fodelau cyflenwi darpariaeth frys amgen gan Wasanaethau Tân ac Achub eraill yn y DU.

13 Yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod a chyfarwyddyd yr Aelodau, parhaodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i weithio ar fodel 2 a model 3.

- **Model 2:** Mae'n cyflwyno newidiadau i'r system ddyletswydd ym mhob gorsaf amser llawn er mwyn rhyddhau staff. Gan ddefnyddio'r staff sy'n cael eu rhyddhau yn sgil y newid hwn, diffoddwyr tân y System Ddyletswydd Amser Cyflawn Wledig a 78% o gydnerthedd criwio'r Gwasanaeth, darperir tair gorsaf newydd â staff dydd.
- **Model 3:** Mae'n sicrhau bod isafswm y nifer sy'n teithio ar wyth peiriant llawn-amser yn cyd-fynd ag isafswm y nifer sy'n teithio ar y System Ddyletswydd Ar Alwad, diffoddwyr tân y System Ddyletswydd Amser Cyflawn Wledig, ac ail beiriant llawn-amser Wrecsam h.y. criw o bedwar diffoddwr tân ar beiriannau. Gan ddefnyddio'r staff sy'n cael eu rhyddhau yn sgil y newid hwn, diffoddwyr tân y System Ddyletswydd Amser Cyflawn Wledig ac 11% o gydnerthedd criwio'r Gwasanaeth, darperir tair gorsaf newydd â staff dydd.

14 Erbyn 10 Tachwedd 2024, daeth cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân i'r casgliad na fyddai model 2 yn gweithio, a bu iddynt dynnu'n ôl ar lafar o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 11 Tachwedd 2024. Yna fe wnaethant anfon yr e-bost canlynol er mwyn esbonio:

*"Yn dilyn trafodaethau hir gyda'r aelodau ynglŷn â'r system pum gwylfa, mae wedi dod yn amlwg nad yw'r opsiwn hwn yn ymarferol ar gyfer Gogledd Cymru.*

*Mae wedi dod i'r amlwg dros y penwythnos drwy gyfathrebu ag aelodau a staff Ystafelloedd Rheoli yn yr Alban, eu bod hwythau hefyd yn cael trafferth gweithredu'r system sifftiau dyletswydd hon yn iawn, gyda chronfa lawer mwy o staff.*

*Byddai hyn yn y pen draw yn golygu y byddai'r system sifftiau dyletswydd hon yn opsiwn costus, heb gynnig gwelliant i argaeledd, ac felly nad ydyw o fewn y terfynau a nodwyd gan yr awdurdod tân.*

*Gan mai'r unig opsiwn arall sydd ar ôl yw gostwng lefelau criwio, teimlwn fod rheidrwydd moesol arnom i gynnal ein safiad ar hyn a pheidio ag ymwneud ag unrhyw waith er mwyn cyflwyno hyn i'r awdurdod tân.*

*Mae hyn wedi'i roi gerbron yr aelodau ac maent hefyd yn gytûn mai tynnu'n ôl o'r gweithgor sydd orau."*

15 Ar 17 Rhagfyr 2024, cyfarfu'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân ag arweinwyr y ffrydiau gwaith a Chadeirydd Undeb y Brigadau Tân i gadarnhau'r sefyllfa hon ac i ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu gwaith caled a'u diwydrwydd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Rhaid i ganlyniadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Rhaid i unrhyw ateb fod o fewn y gyllideb a gymeradwywyd. |
| Cyfreithiol | Dim. |
| Staffio | Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal ymgynghoriad uniongyrchol helaeth gyda staff a'u cyrff cynrychioliadol a bydd yn parhau i wneud hynny. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth wedi ymgysylltu â grwpiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy gydol yr ymgynghoriad. |
| Risgiau | Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ceisio lleihau'r risgiau o beidio â gallu ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru. |

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Ionawr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Pennu Cyllideb 2025-26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch yr asesiad cynllunio ariannol sy'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26, ac i geisio eu cymeradwyaeth ar gyfer cadarnhau'r ardoll ddangosol gyda'r awdurdodau lleol cyfansoddol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ddarparu ffigurau dangosol ar gyfer ardoll ariannol 2025/26 i'r awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr 2024, ac i gadarnhau'r ffigurau terfynol erbyn 15 Chwefror 2025. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 2025/26 yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025. Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wedi craffu ar y broses o gynllunio'r gyllideb, ac mae'r asesiad cynllunio presennol o £52.389m wedi'i gadarnhau.

**ARGYMHELLION**

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26;
ii) nodi'r asesiad cynllunio ariannol presennol, sef gofyniad cyllidebol o £52.389m ar gyfer 2025/26;
iii) nodi'r cynnig i ddefnyddio £0.601m o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2025/26; a
iv) chymeradwyo cyfathrebu ynghylch yr ardoll ariannol ddrafft o £51.788m gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWLLGOR ARCHWILIO**

4 Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan Aelodau'r Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar y 16 Rhagfyr 2024, a gymeradwyodd yr adroddiad yn amodol ar ychwanegu i atodiad 3 i ddangos y cynnydd blynyddol mewn termau real.

## CEFNDIR

5 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd â chymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Rhaid rhoi gwybod am yr ardoll ariannol ddangosol i awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn, a rhaid cadarnhau'r ardoll derfynol erbyn 15 Chwefror, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er mwyn bodloni'r amserlenni hyn, bydd y cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2025/26 yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yn eu cyfarfod ar 20 Ionawr 2025.

6 Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau feddu ar gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig. O ganlyniad, mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gostau ac ar werthuso risgiau ac ansicrwydd.

7 Yn dilyn ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a gynhaliwyd yn ystod 2023/24 ac yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2023, mae cynlluniau'r gyllideb yn seiliedig ar gynnal y model presennol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaethau. Mae'r gwaith ar gynlluniau i wella argaeledd mewn ardaloedd gwledig yn mynd rhagddo ac y tu hwnt i gwmpas y papur hwn sy'n gosod y gyllideb.

8 Cafodd y broses ei goruchwylio gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb (y Gweithgor), a sefydlwyd i graffu ar y broses o osod cyllidebau, gan gynnwys pob maes incwm a gwariant. Gydag aelodau sy'n cynrychioli pob awdurdod lleol, mae'r Gweithgor wedi cyfarfod ar 5 achlysur rhwng Mehefin a Thachwedd 2024, gyda chyfarfod pellach wedi'i drefnu ar gyfer 12 Rhagfyr.


## GWYBODAETH

9 Sefydlwyd y Gweithgor gan yr Awdurdod ac mae pob awdurdod lleol cyfansoddol yn cael ei gynrychioli arno. Mae'r Gweithgor wedi ymgynnull ar bum achlysur i adolygu pob agwedd ar wariant Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Roedd y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar feysydd allweddol, gan gynnwys costau cyflogau uniongyrchol, gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau, ariannu cyfalaf, llog, a threfniadau prydlesu.

10 Gwnaed gwaith cynllunio cyllideb manwl yn unol â'r rhagdybiaethau cynllunio allweddol, y risgiau, a'r amheuon sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1.

11 Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn nodi y byddai angen cynnydd o fwy na 10% yn y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Roedd hyn yn cynnwys pwysau ychwanegol o £1.009m o ran costau yn deillio o'r cynnydd i'r tâl cadw ar gyfer personél y system dyletswydd ar alwad y cytunwyd arno yn genedlaethol. Gwnaed yr asesiad hwn cyn Datganiad yr Hydref ac, felly, nid oedd yn ystyried newidiadau posibl i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, nad oeddent yn hysbys ar y pryd.

12 Nododd y gwaith cychwynnol o gynllunio’r gyllideb mewn manylder bwysau ychwanegol anochel, ac mae’r Gweithgor bellach wedi mynd i’r afael â’r pwysau hwnnw. Mae'r asesiad drafft terfynol yn gosod gofyniad cyllidebol o £52.389m. Ar ôl defnyddio £0.601m o’r gronfa wrth gefn, £51.788m yw’r gofyniad ardoll ar gyfer 2025/26, sy’n cynrychioli cynnydd gros o 7% yn yr ardoll ar awdurdodau lleol. Nid yw'r cynnydd hwn yn adlewyrchu unrhyw gefnogaeth gan y llywodraeth mewn perthynas â chostau yswiriant gwladol uwch.




13 Mae’r gofyniad ardoll o £51.78m ar gyfer 2025/26 yn cynnwys effaith ariannol y newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwyr, sef cyfanswm o £0.772m. Yn ogystal, mae'r £48.322m a godwyd ar gyfer 2024/25 ardoll yn eithrio'r grant pensiwn SCAPE, ac mae angen addasiad i wneud cymhariaeth tebyg.


14 Mae dadansoddiad drafft o’r gofyniad ardoll o £51.788m ar gyfer pob awdurdod lleol cyfansoddol i’w weld yn Atodiad 2.

15 Mae’r tabl isod yn cadarnhau gostyngiadau o £0.902m ar gyfer costau gweithwyr a chostau eraill nad ydynt yn gyflogau a nodwyd gan waith y Gweithgor rhwng mis Medi a mis Hydref 2024. Fodd bynnag, roedd y gostyngiad net yn £0.386m oherwydd effaith y cynnydd i gyfraddau Yswiriant Gwladol yn dilyn datganiad cyllideb yr Hydref a gwaith mireinio ar yr ariannu cyfalaf.

| £'m | 2024/25 | Medi-24 | Hyd-24 | Tach-24 | Newidiadau drwy Graffu ar y Gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithwyr** | 34.192 | 36.751 | 36.614 | 36.936 | 0.185 |
| **Cost nad yw’n gyflog** | 12.807 | 13.077 | 12.432 | 11.990 | -1.087 |
| **Incwm** | -0.946 | -1.039 | -1.039 | -1.039 | 0.000 |
| **Cyllid Cyfalaf** | 3.193 | 3.985 | 3.856 | 4.407 | 0.516 |
| **Cyfanswm** | **49.246** | **52.774** | **51.863** | **52.388** | **-0.386** |

16 Mae'r siartiau rhaeadr canlynol yn dangos y newidiadau allweddol rhwng cyllideb 2024/25 a chyllideb arfaethedig 2025/26, gan dynnu sylw at yr addasiadau a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn lle bo hynny'n berthnasol ac yn briodol.

17 Mae costau gweithwyr wedi codi o gyllideb cyflogres o £34.192m yng 2024/25 i £36.936m yng nghyllideb cyflogres arfaethedig 2025/26. Mae rhai o'r prif bethau sy'n cyfrannu at y cynnydd hwn yn cynnwys £0.060m ar gyfer dyfarniad cyflog 2024/25 ar gyfer staff y Llyfr Gwyrdd, £1.009m ar gyfer y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS) sy'n dod i rym o 1 Ionawr 2025, £0.648m ar gyfer chwyddiant y Llyfr Llwyd ar 3%, £0.202m ar gyfer chwyddiant y Llyfr Gwyrdd ar 3%, a £0.772m yn adlewyrchu effaith y newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad o £0.119m o ganlyniad i addasiadau i swyddi'r system dyletswydd ar alwad (sydd yn lleihau'r rhagdybiaeth o recriwtio 30 o staff ychwanegol i 15). Yn ogystal, dyrennir £0.061m i dalu am swydd incwm cyfatebol, dyrennir £0.045m ar gyfer cyflwyno swydd Uwch Swyddog Cydymffurfio Diogelwch Tân i Fusnesau, a £0.035m ar gyfer rôl Swyddog Caffael.





18 Mae'r dadansoddiad o gostau uniongyrchol y gyflogres, a nodir isod, yn cadarnhau dyraniad o £36.936m ar gyfer gweithwyr mewn swyddi sy'n cyflwyno gwasanaethau. Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn cynnwys darpariaethau i gefnogi twf parhaus y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS), er hynny, gyda rhagdybiaeth o recriwtio yn ychwanegol wedi'i leihau i 15, gan sicrhau bod gallu a chydnerthedd yr ymateb gweithredol yn cael eu cynnal.


| **Dadansoddiad o Gostau Cyflogau Uniongyrchol** | **2025/26 £'m** |
|---|---|
| Darparu Gwasanaethau Ymateb | 31.267 |
| Darparu Gwasanaethau Amddiffyn ac Atal | 2.712 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 2.957 |
| **Gofynion y Gyllideb Staffio** | **36.936** |

19 Rhagwelir y bydd costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn gostwng o £12.807m yn 2024/25 i lefel sylfaenol ddiwygiedig o £11.990m ar gyfer 2025/26. Mae'r gostyngiad hwn yn cael ei yrru gan £0.563m mewn arbedion cyfleustodau, £0.497m o gael gwared ar wariant untro Tech Ops, £0.489m o ostyngiadau disgwyliedig yng nghostau Firelink, a £0.076m oherwydd bod gwariant a ariennir gan grant wedi dod i ben.


20 Mae'r gostyngiadau hyn yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan gynnydd o £0.336m ar gyfer yr Ystafell Reoli, £0.200m yr un ar gyfer y Fflyd a TGCh, a £0.055m ar gyfer costau adrannol eraill. Cynigir bod costau untro, gan gynnwys £0.382m ar gyfer gwelliannau i'r system a £0.125m ar gyfer mesuryddion llif, yn cael eu hariannu o'r gronfa wrth gefn, gan arwain at gyllideb arfaethedig derfynol o £11.955m ar gyfer y gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau.




21 Rhagwelir y bydd incwm yn cynyddu o £0.946m yng nghyllideb 2024/25 i £1.039m, wedi'i yrru gan refeniw uwch o Gytundebau Lefel Gwasanaeth ac incwm ychwanegol a ragwelir yn sgil cyflwyno prentisiaeth mewn partneriaeth â Choleg Cambria.



22 Rhagwelir y bydd costau ariannu cyfalaf yn cynyddu o £3.189m yn 2024/25 i £4.407m yn 2025/26, yn bennaf oherwydd bod cyfraddau llog yn cynyddu. Mae'r ffactorau allweddol yn cynnwys £0.135m mewn costau llog ail-ariannu, £0.197m ar gyfer benthyca sy'n gysylltiedig â phrosiectau cyfalaf, £0.094m ar gyfer prydlesi, a £0.253m ar gyfer y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Mae costau benthyca ychwanegol ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd a chyfleusterau hyfforddi yn cyfrannu £0.652m a £0.054m, yn y drefn honno. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad o £0.074m yng nghostau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a defnyddio £0.094m o'r gronfa wrth gefn, gan arwain at y gyllideb arfaethedig o £4.407m.




## GWAITH PELLACH

23 Bydd achosion busnes ar gyfer ariannu cyfalaf yn destun craffu mewnol pellach i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion strategol y sefydliad, yn lliniaru risgiau'n effeithiol, ac yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Bydd y broses hon yn rhoi sicrwydd bod buddsoddiadau arfaethedig yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor, yn sicrhau gwerth am arian, ac yn cefnogi nodau ehangach llesiant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

24 Bydd yr asesiad cynllunio ariannol drafft yn cael ei fireinio ymhellach, a bydd yn cael ei ddiweddaru yn yr asesiad terfynol sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod. Mae'n adrodd ar hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi nodi gofyniad cyllideb o £52.8m. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i osod cyllideb gytbwys sy'n seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio realistig. |
| Staffio | Mae 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff ac felly mae'n ffactor hanfodol wrth ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. Mae'r risgiau a nododd y Prif Swyddog Tân yn cynnwys y trafodaethau cyflog sy'n parhau yn ogystal â'r angen i recriwtio mwy o staff dyletswydd ar alwad a gwella cydnerthedd corfforaethol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn cael ystyriaeth o fewn y cynigion ar gyfer pennu'r gyllideb. |
| Risgiau | Mae'r risgiau a'r ansicrwydd allweddol i gyllideb 2025/26 wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1. |

**Atodiad 1**
**Crynodeb o ragdybiaethau a risgiau cynllunio**

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy’n cael eu defnyddio wrth bennu’r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Bydd y cyllidebau staffio yn cael eu llunio ar fodelau cyflwyno’r gwasanaethau presennol a byddant yn adlewyrchu’r penderfyniad ynghylch canlyniad yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr 2023.<br>• Mae gwariant y System Dyletswydd ar Alwad (RDS) wedi'i seilio ar gyfrif pennau 2023/24. Byddai cyllidebu ar gyfer y staffio llawn gofynnol yn arwain at gost ychwanegol o tua £3 miliwn.<br>• Mae'r asesiad cynllunio ar gyfer y dyfarniadau cyflog ar gyfer 2025/26 yn gynnydd o 3% ar gyfer pob grŵp staff.<br>• Roedd setliad diffoddwyr tân 2024/25 yn cynnwys codiad o tua 50% yn y tâl cadw a delir i ddiffoddwyr tân ar y systemau dyletswydd ar alwad a chriwio dydd. Amcangyfrifir mai effaith y cynnydd hwn yw £1m y flwyddyn.<br>• Yn ystod 2023/24 adolygodd Llywodraeth Cymru y llif arian mewn perthynas â chymorth ariannol ar gyfer y cynnydd i gyfraniadau'r cyflogwr sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Yn dilyn prisiadau actiwaraidd 2016 darparwyd £1.1m o gymorth i'r Awdurdod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (a elwir yn gyllid SCAPE). Ers 2023/24 mae hyn wedi'i gynnwys o fewn y cyllid i’r awdurdodau lleol cyfansoddol. Ar adeg ysgrifennu hwn, nid yw'r cymorth ariannol ar gyfer y cynnydd sy'n deillio o brisiad 2020 wedi'i gadarnhau eto. At ddiben pennu'r gyllideb mae'r holl gostau wedi'u cynnwys o fewn y gwariant sydd i'w gwmpasu gan yr ardal. | • Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb eto ar ddyfarniad cyflog y diffoddwyr tân ar gyfer 2025/26.<br>• Nid yw’r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi dod i gytundeb eto ar y dyfarniad cyflog i staff ar gontractau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar gyfer 2025/26.<br>• Mae’r gwaith o gynllunio’r gyllideb yn tybio y bydd lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd llif mawr o alwadau yn digwydd byddwn yn teimlo pwysau cyllidebol. Y dybiaeth rydym yn gweithio arni yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau nad ydynt yn gyflogau | • Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cadarnhau y bydd y cyllidebau ar gyfer costau nad ydynt yn gyflogau'n cael eu llunio gan ddefnyddio'r modelau cyflwyno gwasanaethau presennol.<br>• Mae'r gofynion ar y gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau wedi cynyddu hyd yn oed yn fwy oherwydd yr effaith chwyddiant sy'n gynhenid o fewn contractau presennol ac yn y dyfodol, yn ogystal â materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi mewn nifer o feysydd hanfodol i fusnes. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwi cit diffodd tân a dod o hyd i rannau newydd ar gyfer cerbydau'r ochr weithredol.<br>• Mae costau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw'n gyflogau. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi diffoddwyr tân gweithredol a rheoli halogyddion.<br>• Mae cyllidebau wedi'u llunio gan bob Pennaeth Adran perthnasol yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u barn broffesiynol am y gwariant sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o rwymedigaethau cytundebol sylfaenol ac amcangyfrifon o weithgarwch. Mae ceisiadau newydd am gyllid dros £10,000 yn ddarostyngedig i achos busnes y bydd craffu arno. | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau ac yn ymdrechu i reoli pwysau o ran costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hyn yn parhau i fod yn faes risg ac ansicrwydd. Yn benodol, nodwyd bod oedi wrth ddarparu nwyddau neu wasanaethau wedi effeithio ar broffiliau amser gwariant.<br>• Er bod chwyddiant costau yn gyffredinol yn haws ei reoli nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nodir bod rhai meysydd o bryder yn parhau. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn trwyddedau ar gyfer meddalwedd gan gynnwys systemau sy'n bwysig i'r busnes.<br>• Rydym wedi gwybod bod cost nwy a thrydan yn achosi pwysau ers 2022/23 o ganlyniad i'r pwysau byd-eang ar gostau. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae anwadalrwydd yn y farchnad yn parhau a chaiff hyn ei reoli'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol.<br>• Yn ystod 2023/24, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddileu ei chefnogaeth ariannol o £0.4m ar gyfer rhwydwaith cyfathrebu cenedlaethol presennol y gwasanaethau brys (Firelink). Mae pris llawn y contract bellach yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o gyllid craidd. Oherwydd natur sefydlog y contract hwn, ni ellir osgoi'r costau hyn ac mae'r contract yn cynnwys cynnydd blynyddol yn sgil chwyddiant. Mae'r gost ar gyfer blwyddyn lawn yn £1m er y gallai hyn ostwng i £0.5m yn dilyn her gyfreithiol genedlaethol. Mae'r her gyfreithiol genedlaethol yn destun apêl ac rydym yn parhau i fod yn ansicr beth fydd y canlyniad terfynol. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn y gost wedi'i gynnwys fel rhan o'r gwaith o bennu'r gyllideb. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Ariannu Cyfalaf | • Mae'r gofynion ariannu cyfalaf ar gyfer 2025/26 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer yr isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer yr asedau presennol ac amcangyfrif o'r taliadau llog sy'n deillio o fenthyca. Effeithir ar y costau hyn yn sgil gwariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyg ar gyfer rhaglen gyfalaf 2025/26 ac effaith y cynnydd mewn cyfraddau llog wrth ailariannu benthyciadau sy'n aeddfedu.<br>• Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn rhagdybio y bydd yr holl fenthyca yn y dyfodol ar gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar adeg pennu'r gyllideb, a amcangyfrifir ar hyn o bryd yn 4.5%. Mae'r Awdurdod yn derbyn cyngor ac arweiniad annibynnol ar y mater hwn gan Arlingclose, cwmni cynghori arbenigol.<br>• Mae'r cynllun cyfalaf yn cynnwys costau posibl sy'n gysylltiedig ag achosion busnes a gyflwynir gan bob Pennaeth Adran. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â Phrosiect y Ganolfan Hyfforddi i alluogi datblygu achos busnes manwl a model ariannu. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn faes risg allweddol ac mae'n gwaethygu oherwydd bod angen ailariannu nifer o fenthyciadau yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd modelu ariannol yn cael ei wneud i asesu pa mor fforddiadwy yw'r holl gynlluniau yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.<br>• Nid yw amseriad unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd yn hysbys ar hyn o bryd gan nad yw'r achos busnes wedi'i ystyried gan yr Awdurdod. Er na ragwelir na fydd yr achos busnes terfynol a'r opsiynau ariannu yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo tan 2027 bydd darpariaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio manwl yn cael ei chynnwys yn amcangyfrifon cychwynnol y gyllideb. |
| Incwm | • Mae cyllidebau incwm wedi'u hadolygu a'u pennu yn unol â blynyddoedd blaenorol, yn amodol ar gynnydd mewn chwyddiant. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf ag incwm o eiddo lle mae ein safleoedd yn cael eu defnyddio ar y cyd.<br>• Bu gostyngiad sylweddol yn incwm grant Llywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bydd y broses o bennu'r gyllideb yn rhagdybio y bydd gweddill y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn ar lefelau 2024/25. | • Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru, ac ni ragwelir codiadau chwyddiant ar ei gyfer. |

**Atodiad 2**

**Ardoll ariannol ddrafft yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod | Cyfraniad 2024/2025<br>£ | Poblogaeth | Gofynion y Gyllideb (Ardoll) 2025/2026<br>£ | Cynnydd i'r Ardoll<br>£ | Cynnydd i'r Ardoll<br>% | Cynnydd mewn termau real*<br>% |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 4,848,293 | 69,291 | 5,190,383 | 342,090 | 7.06% | 4.94% |
| Cyngor Gwynedd | 8,256,681 | 119,173 | 8,926,896 | 670,214 | 8.12% | 5.98% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 8,024,901 | 114,410 | 8,570,114 | 545,213 | 6.79% | 4.68% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 6,779,844 | 97,156 | 7,277,668 | 497,824 | 7.34% | 5.22% |
| Cyngor Sir y Fflint | 10,905,762 | 155,812 | 11,624,223 | 718,461 | 6.59% | 4.90% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 9,506,724 | 136,149 | 10,198,518 | 691,794 | 7.28% | 5.15% |
| **Cyfanswm** | **48,322,205** | **691,991** | **51,787,801** | **3,465,596** | **7.17%** | **5.15%** |

*Dyma'r cynnydd canrannol yn y ardoll pan fydd yn cael ei addasu ar gyfer SCAPE o £0.207m ar gyfer 2024/25 a newidiadau i'r trothwy a'r cyfraddau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr o £0.772m.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Ionawr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – cyfraddau cyfraniadau gweithwyr ar gyfer cynllun pensiwn y diffoddwyr tân** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi gwybodaeth i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y newidiadau arfaethedig i gyfraddau cyfraniadau gweithwyr ar gyfer cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yng Nghymru.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i gyfraddau cyfraniadau gweithwyr a'r strwythur cyfraniadau o fewn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FPS) yng Nghymru. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael yma.

3 Nododd y prisiad o gynllun pensiwn y diffoddwyr tân a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) yn 2020 fod yr arenillion o gyfraniadau gweithwyr yn is na'r lefel arenillion o 13.2% sy'n ofynnol ar gyfer y cynllun. Mae gan gyfraniadau gweithwyr warchodaeth arbennig o dan adran 22 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a dim ond ar ôl ymgynghori y gellir newid y cyfraddau.

4 Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi ystod o gynigion ac yn gofyn am sylwadau drwy gyfres o gwestiynau strwythuredig erbyn 4 Chwefror 2025.

5 Mae'r ymateb arfaethedig sydd i'w anfon ar ran yr Awdurdod wedi'i nodi yn Atodiad 1.

## SYLWADAU GAN Y BWRDD PENSIWN LLEOL

6 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen gan y Bwrdd Pensiwn Lleol oherwydd amseriad yr ymgynghoriad.

## ARGYMHELLION

7 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) nodi cefndir ymgynghoriad Llywodraeth Cymru; a
ii) cymeradwyo'r ymateb sydd i'w gyflwyno ar ran yr Awdurdod.

## CEFNDIR

8 Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am y rheoliadau sy'n ymwneud â gweithredu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys gosod cyfraddau cyfraniadau y gweithwyr a'r cyflogwyr.

9 Yn dilyn y prisiad diweddaraf a wnaed yn 2020, bydd yr Aelodau'n cofio bod y cyfraddau cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr wedi cynyddu o fis Ebrill 2024. Yn ogystal, nododd Adran Actiwari'r Llywodraeth fod arenillion y gweithwyr yn is na'r lefel sy'n ofynnol, sef 13.2%. Yn unol â hynny, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu a diwygio'r cyfraddau cyfraniadau i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, oherwydd y warchodaeth arbennig o dan adran 22 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, dim ond ar ôl ymgynghori y gellir diwygio'r rheoliadau sylfaenol.

10 Cyhoeddwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 12 Tachwedd 2024 a bydd yn cau ar 4 Chwefror 2025. Gellir gweld yr ymgynghoriad yma.

## GWYBODAETH

11 Mae'r egwyddorion sylfaenol a ystyriwyd wrth osod cyfraddau'r gweithwyr yn cael eu cadarnhau yn y ddogfen ymgynghori, a dyma nhw:

- Dylai'r cyfraniadau fod yn fforddiadwy, ac ni ddylai'r newidiadau beri i aelodau optio allan o'r cynllun;
- dylid strwythuro'r cyfraddau o blaid aelodau'r cynllun sydd ar gyflog is;
- ni ddylai'r cyfraddau wneud i unigolion deimlo'n amharod i gamu ymlaen yn eu gyrfa;
- dylai strwythur y gyfradd gyfraniadau gael ei ddiogelu at y dyfodol; a
- dylai'r system fod yn syml i'w gweinyddu.

12 Mae'r strwythur cyfraddau cyfraniadau presennol yn cynnwys cyfraddau cyfraniadau rhwng 11% a 14.5% yn seiliedig ar dâl pensiynadwy, gan nodi bod diffoddwyr tân cymwys yn talu cyfraniad o 12.9%. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys yr opsiynau canlynol sy'n cael eu hystyried:

- Cadw’r system bresennol ond newid y cyfraddau cyfraniadau ar gyfer pob un o'r bandiau presennol. Hwn fyddai'r opsiwn symlaf ond nid yw'n diogelu'r system at y dyfodol.
- Diweddaru'r system bresennol i gyflwyno cyfraniadau ar sail ymylol yn debyg i'r mecanwaith ar gyfer pennu treth. Mae hyn yn golygu y byddai cyfradd cyfraniadau gweithwyr yn amrywio. Er bod hyn yn cael gwared ar unrhyw wrthanogaeth i geisio am ddyrchafiad oherwydd cyfraniadau uwch, mae'n cyflwyno heriau gweinyddol sylweddol.
- Cyfrifo cyfraddau cyfraniadau ar sail cyflog gwirioneddol yn hytrach na chyflog amser cyflawn (cyflog pensiynadwy tybiedig). Byddai hyn o fudd i weithwyr ar alwad ond byddai'n rhaid cynyddu’r cyfraddau cyfraniadau ar gyfer pob aelod o staff er mwyn lleddfu'r effaith.
- Cysylltu cyfraniadau â’r strwythurau gradd a nodir yn Nhelerau ac Amodau Gwasanaeth y Diffoddwyr Tân (y llyfr Llwyd).

13 Mae'r ymgynghoriad yn nodi naw cwestiwn strwythuredig ynghylch yr egwyddorion a'r gwahanol opsiynau ar gyfer strwythuro cyfraddau'r gweithwyr. Mae'r ymateb arfaethedig sydd i'w gyflwyno ar ran yr Awdurdod, fel Rheolwr y Cynllun, wedi'i nodi yn Atodiad 1.

14 Mae'r ymateb arfaethedig yn cadarnhau bod cysylltu cyfraniadau â strwythurau gradd yn darparu dull hawdd ei weinyddu sy'n cefnogi'r egwyddorion a bennwyd. Fodd bynnag, un o effeithiau’r opsiwn hwn yn ei ffurf bresennol yw gwrthanogaeth i weithwyr sy'n ystyried dyrchafiad oherwydd effaith sylweddol ehangu'r cyfraddau cyfraniadau rhwng bandiau. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys gostyngiad arfaethedig mewn cyfraniadau ar gyfer diffoddwyr tân ond mae'n cynyddu'r cyfraniadau i reolwyr criwiau a lefelau uwch na hynny. Dyma’r opsiwn sy’n cael ei ffafrio, os gellir mynd i’r afael â’r effaith gwrthanogaeth y mae’n ei chreu.

15 Yn ogystal, rhoddir adborth i Lywodraeth Cymru ynghylch amseriad cyflwyno unrhyw newidiadau. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cyfathrebu â'r rhai yr effeithir arnynt a hefyd i sicrhau y gellir gwneud y newidiadau gweinyddol angenrheidiol, gan gynnwys diweddariadau meddalwedd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â'r Amcanion Llesiant ac yn creu cynllun pensiwn cynaliadwy a fforddiadwy. |
| Cyllideb | Dim effaith – mae'r ymgynghoriad yn seiliedig ar gyfraddau cyfraniadau gweithwyr. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau'r Cynllun. |
| Staffio | Mae'r mater hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar weithwyr sy'n aelodau o gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus a gynigir gan yr Awdurdod; gan ddibynnu ar y cynllun, gall aelodau ddewis optio allan o'r cynllun pensiwn. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o effaith y cynigion ar gydraddoldeb. |
| Risgiau | Mae'r cynigion yn mynd i'r afael â'r risg na fydd lefel arenillion y gweithwyr ar gynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn ddigonol. |

**Atodiad 1 – Ymatebion arfaethedig**

**Cwestiwn 1**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai'r strwythur newydd fod yn seiliedig ar yr egwyddorion a amlinellir uchod? Ydych chi'n meddwl bod rhai egwyddorion yn bwysicach na rhai eraill?**

**Egwyddorion Sylfaenol**

- **Dylai cyfraniadau fod yn fforddiadwy, ac ni ddylai'r newidiadau beri i aelodau optio allan o'r cynllun**
  Mae fforddiadwyedd yn egwyddor sylfaenol sy'n ofynnol i sicrhau bod yr holl staff yn cynllunio ac yn cyfrannu tuag at eu hymddeoliad, ac mae angen ei chydbwyso â chynaliadwyedd y cynllun. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod hon yn risg y mae angen ei modelu a'i rheoli'n ofalus gan y gallai cynyddu cyfraniadau achosi i aelodau ystyried optio allan, a fyddai wedyn yn gadael llai o aelodau i ariannu'r cynllun.

- **Dylid strwythuro'r cyfraddau o blaid aelodau'r cynllun sydd ar gyflog is.**
  Mae egwyddor fforddiadwyedd yn cyd-fynd yn agos â strwythuro'r cyfraddau er mwyn rhoi'r budd gorau i'r gweithwyr hynny sydd ar gyflogau is. Ar hyn o bryd mae'r dull hwn yn fecanwaith derbyniol a syml y mae unigolion yn ei ddeall a'i dderbyn ac mae'n cael ei gefnogi gan Reolwr y Cynllun hefyd.

- **Ni ddylai cyfraddau wneud i unigolion deimlo'n amharod i gamu ymlaen yn eu gyrfa**
  Cytunir ar yr egwyddor hon. Er bod yr aelodau'n derbyn ar hyn o bryd y gallai cynnydd mewn cyflog, oherwydd dyrchafiad, olygu eu bod yn gorfod talu mwy o gyfraniadau, deellir hyn ac mae'r aelodau'n cydnabod, o dan egwyddor CARE Cynllun 2015, mai po fwyaf y byddant yn ei gyfrannu, yr uchaf fydd eu pensiwn pan fyddant yn ymddeol. Ni ddylai unrhyw strwythur newydd gyflwyno rhwystrau canfyddedig i ddyrchafiad oherwydd cynnydd afrealistig mewn cyfraniadau pensiwn.

- **Dylai strwythur y gyfradd gyfraniadau gael ei ddiogelu at y dyfodol**
  I'r graddau y gellir cyflawni hyn, cytunir ar yr egwyddor hon. Mae'r strwythur presennol ar gyfer cyfraniadau gweithwyr wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ond nid yw wedi aros cyfuwch â'r cynnydd mewn cyflogau yn sgil dyfarniadau tâl blynyddol. Mae hyn ynddo'i hun wedi cyfrannu at yr angen yn awr am adolygiad sylfaenol, er mwyn sicrhau'r arenillion gofynnol o 13.2%. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd y gallai trafodaethau sy'n parhau ynghylch moderneiddio cyflogau diffoddwyr tân ar lefel genedlaethol effeithio ar y dyhead hwn.

- **Dylai'r system fod yn syml i'w gweinyddu**
  Cefnogir yr egwyddor hon yn llawn, i leihau'r baich gweinyddol ond hefyd i leihau'r risg o gamgymeriad. Mae angen i unrhyw newidiadau sylfaenol i'r strwythur cyfraniadau presennol fod yn ymarferol i'r holl randdeiliaid. Mae angen i aelodau ddeall yn hawdd yr hyn y disgwylir iddynt ei dalu, mae angen i systemau cyflogres allu rheoli'r strwythur didyniadau yn awtomatig heb ymyrraeth â llaw ac mae angen i weinyddwyr ddeall hefyd y gwahanol elfennau yng nghyflog unigolyn er mwyn sicrhau bod cyfraniadau'n cael eu didynnu'n gywir.

**Cwestiwn 2**
**I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylid cyfrifo cyfraniadau pensiwn gweithwyr ar sail ymylol, yn hytrach nag ar sail haenog?**

Er y byddai cyflwyno strwythur ymylol yn galluogi mwy o deimlad o degwch, gyda'r rhai ar gyflogau uwch yn talu cyfraniadau ychwanegol ar yr elfen honno o'u cyflog sydd uwchlaw'r bandiau sylfaenol yn unig, byddai angen i unrhyw newidiadau sylfaenol i'r strwythur cyfraniadau presennol fod yn ymarferol i'r holl randdeiliaid.

Mae angen i aelodau ddeall yn hawdd yr hyn y disgwylir iddynt ei dalu, mae angen i systemau cyflogres allu rheoli'r strwythur didyniadau yn awtomatig heb ymyrraeth â llaw ac mae angen i weinyddwyr ddeall hefyd y gwahanol elfennau yng nghyflog unigolyn er mwyn sicrhau bod cyfraniadau'n cael eu didynnu'n gywir.

Os ceir symud tuag at sail ymylol, o'i gymharu â sail haenog, ni fyddai'n bosibl cadw at y dyddiad gweithredu arfaethedig, sef Ebrill 2025, gan y byddai angen newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff systemau cyflogres eu ffurfweddu ar hyn o bryd, a byddai angen profi'r diweddariadau hynny. Byddai angen cynnwys rheolwyr cyflogres yn y ffordd hon o feddwl, yn ogystal â'u darparwyr system cyflogres. Ni fyddai'n ymarferol newid y strwythur cyfraniadau pe bai'n arwain at orfod cyfrifo cyfraniadau gweithwyr â llaw yn rheolaidd.

Hyd yn oed wrth gyflwyno dull ymylol, byddai angen meddwl o hyd am y bandiau a chodiadau canrannau uwchlaw'r gyfradd sylfaenol a ddefnyddir ar gyfer pawb.

**Cwestiwn 3**
**I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai cyfraniadau pensiwn gweithwyr fod yn seiliedig ar strwythur graddau'r Gwasanaeth Tân yn hytrach nag ar fandio ariannol?**

Er bod yr aelodau'n derbyn ar hyn o bryd y gallai cynnydd mewn cyflog, oherwydd dyrchafiad, olygu eu bod yn gorfod talu mwy o gyfraniadau, deellir hyn ac mae'r aelodau'n cydnabod, o dan egwyddor CARE Cynllun 2015, mai po fwyaf y byddant yn ei gyfrannu, yr uchaf fydd eu pensiwn pan fyddant yn ymddeol. Ni ddylai unrhyw strwythur newydd gyflwyno rhwystrau canfyddedig i ddyrchafiad oherwydd cynnydd afrealistig mewn cyfraniadau pensiwn.

Mae symud tuag at strwythur sy'n seiliedig ar raddau'r Gwasanaeth Tân yn hytrach na chyflog yn sicrhau bod unrhyw godiadau cyflog yn cael eu cyfleu ac yn diogelu'r strwythur bandio at y dyfodol. Fodd bynnag, mae angen i'r dull hwn fod yn ystyriol o drafodaethau cenedlaethol yn y dyfodol ynghylch moderneiddio tâl diffoddwyr tân a'r potensial i fandiau cyflog orgyffwrdd o fewn graddau'r gwasanaeth tân.

Ac ystyried y cynigion o ran cyfraniadau a nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae'n bosibl iawn y bydd rhai aelodau'n amharod i wneud cais am ddyrchafiad oherwydd y cynnydd mewn cyfraniadau, yn enwedig tra maent ar dâl datblygu. Yn ogystal, gallai'r dull hwn, yn anfwriadol, gyflwyno diwylliant o ddyrchafiadau dros dro estynedig sy'n galluogi'r aelod i aros yn eu band blaenorol, gan nad yw dyrchafiadau dros dro yn bensiynadwy yng Nghynllun 2015. Er bod yr egwyddor o strwythuro cyfraddau yn ffafrio gweithwyr ar gyflogau is, gellid ystyried bod hyn yn newid y cydbwysedd i beidio â ffafrio'r rhai sy'n ceisio cael dyrchafiad. Yn gyffredinol, er bod hwn yn ymddangos yn gynnig da, ymarferol a hawdd ei weinyddu, byddai adolygiad o'r lefelau cyfrannu ar gyfer pob gradd yn gwella rhagor ar yr opsiwn hwn.

Hefyd, mae strwythur sy'n seiliedig ar raddau yn rhoi tryloywder llwyr ac yn galluogi unigolion i ddeall pa gyfraniadau y dylent fod yn eu talu.

**Cwestiwn 4**
**I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylid parhau i gyfrifo cyfraniadau drwy gyfeirio at gyflog cyfwerth ag amser llawn yn hytrach na chyflog pensiynadwy gwirioneddol?**

Byddai'r cynnig i symud tuag at gyfraniadau yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy gwirioneddol o fudd i aelodau ar alwad ac o bosibl yn arwain atynt yn talu llai o gyfraniadau yn gyffredinol. Fodd bynnag, er mwyn cynnal lefel yr arenillion, byddai angen addasu cyfraniadau'r holl staff amser cyflawn a byddai'n arwain at gyfraniadau uwch na'r hyn a nodir o fewn opsiynau eraill.

Er ei fod yn cyd-fynd â'r egwyddor o ffafrio'r gweithwyr ar gyflogau is, mae potensial i'r dull gwahanol hwn fod yn ymrannol ymhlith yr aelodau a byddai angen rheoli hyn yn ofalus.

Mae'r dull hwn hefyd yn symud yr aelodau ar alwad i ffwrdd oddi wrth yr egwyddor o fod yn seiliedig ar rolau, sef yr opsiwn sy'n cael ei awgrymu ar gyfer y dyfodol.

**Cwestiwn 5**
**I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig manwl sydd wedi'i nodi ym mharagraffau 37-40 uchod?**

Mae rhoi pob diffoddwr tân ar alwad ar un gyfradd gyfraniadau yn cyd-fynd â'r egwyddor bod y cyfraddau wedi'u strwythuro ar gyfer gweithwyr ar gyflogau is. Yn yr un modd, gallai hyn hefyd, o bosibl, gael gwared ar rwystr canfyddedig i gael dyrchafiad o fewn y garfan o staff ar alwad. Er y byddai'n gymharol hawdd i'w weinyddu, byddai'n rhaid cael diweddariadau i'r feddalwedd bresennol ac felly ni fyddai dyddiad gweithredu o Ebrill 2025 yn bosibl.

Fodd bynnag, byddai angen gwneud gwaith manwl ar effaith y cyfraddau cyfrannu arfaethedig a nodir ar hyn o bryd yn y tabl ar staff amser cyflawn, er mwyn sicrhau nad yw'r cynnydd ar gyfer staff amser cyflawn yn cael ei ystyried yn ymrannol nac yn negyddol i'r fath raddau fel bod gweithwyr yn gadael y cynllun pensiwn.

**Cwestiwn 6**
**Os nad ydych yn cytuno â'r cynnig sydd wedi'i amlinellu uchod, a oes gennych chi awgrym arall ynghylch sut y dylid strwythuro cyfraddau cyfraniadau?**

Mae'r cynigion a nodir yn Opsiwn 3, wedi'u haddasu ar gyfer gweithwyr ar alwad, yn darparu methodoleg glir. Gellid mynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol posibl i'r rhai sy'n ceisio cael dyrchafiad drwy gulhau'r cyfraddau cyfraniadau rhwng yr holl raddau ymhlith y staff, ond gan gadw'r egwyddor bod staff ar gyflogau is yn talu llai.

**Cwestiwn 7**
**Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion uchod yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Dim effaith

**Cwestiwn 8**
**Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Dim effaith

**Cwestiwn 9**
**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am ein cynigion neu unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt?**

- Mae'n bwysig bod gan Reolwyr Cynllun ddigon o amser i wneud unrhyw newidiadau gweinyddol gan gynnwys diweddariadau i feddalwedd ar gyfer systemau cyflogres. Yn unol â hynny, nid ystyrir bod dyddiad gweithredu ym mis Ebrill 2025 yn bosibl. At hynny, bydd cyflwyno'r newidiadau yn ôl-weithredol yn creu baich gweinyddol ac yn creu pryder i weithwyr.
- Os bydd Cymru'n cyflwyno strwythur cyfraniadau newydd o fis Ebrill 2025, mae potensial iddo fod ychydig yn wahanol i'r newidiadau a gyflwynir yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nodir bod y Swyddfa Gartref ar hyn o bryd yn gweithio ar sail dyddiad gweithredu ym mis Hydref 2025 yn Lloegr.

- Fel Rheolwr Cynllun byddai'n well gennym ddyddiad gweithredu diweddarach i sicrhau nid yn unig bod newidiadau gweinyddol a meddalwedd yn cael eu gwneud, ond hefyd bod cyfathrebu'n digwydd gyda'r gweithwyr i egluro'r newidiadau a'r effaith bosibl. Dylid ystyried y llwyth gwaith ar dimau presennol ac ystyried y gwaith sy'n gysylltiedig â heriau cyfreithiol presennol.
- Os ystyrir bod fforddiadwyedd yn rhwystr sylweddol i ymuno â'r cynllun pensiwn, gallai dull amgen gynnwys cyflwyno opsiwn 50/50 tebyg i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Fodd bynnag, deellir y gallai hyn effeithio'n negyddol ar yr arenillion gan y gallai'r rhai ar gyflogau uwch fod yn fwy tueddol o fanteisio ar yr opsiwn hwn.
- A roddwyd ystyriaeth i sicrhau bod y dull gweithredu yng Nghymru yn cyd-fynd â chynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yn Lloegr a'r gwledydd datganoledig eraill? Gallai unrhyw wahaniaethau effeithio ar drosglwyddiadau ar draws y ffin, o bosibl, oherwydd gwahanol gyfraddau cyfraniadau, gan arwain at bensiynau uwch neu is yng Nghymru. Hefyd, mae angen i ni gofio y gallai newidiadau sylweddol i brosesau gweinyddu ac arferion presennol gynyddu cost y contractau hyn i'r Gwasanaethau ledled Cymru.

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Ionawr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Asesiad Perfformiad Blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2023-2024** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwynir y papur hwn i'r Aelodau ei gymeradwyo, sef yr asesiad blynyddol o berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ystod 2023/24 mewn perthynas â:

i) Ei gynnydd tuag at gyflawni ei Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol tymor hir 2020-2024; a'i
ii) gydymffurfiaeth â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ysgrifennu cynllun cydraddoldeb bob pedair blynedd. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod 2020-2024 yn nodi pum blaenoriaeth. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u rhannu'n chwe amcan cydraddoldeb y mae'r Awdurdod eisiau cynorthwyo i'w cyflwyno er mwyn gwneud Cymru'n lle tecach i fyw.

3 Ar ôl gosod yr amcanion hyn, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i'w dilyn ac i adrodd yn gyhoeddus ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ar y cynnydd y mae wedi'i wneud.

4 Mae Asesiad Perfformiad Blynyddol 2023/24 yn dangos ymhellach sut mae'r Awdurdod wedi parhau i wneud cynnydd da yn erbyn pob un o'r pum blaenoriaeth.

**ARGYMHELLIAD**

**5 Bod yr Aelodau'n:**

**i) Cymeradwyo'r asesiad blynyddol o berfformiad yr Awdurdod yn 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod; a**
**ii) Nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi fersiwn gryno syml o elfennau allweddol yr adroddiad asesu.**

## CEFNDIR

6 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod o dan ddarnau amrywiol o ddeddfwriaeth roi cyfrif cyhoeddus o'i berfformiad, ei gynnydd a'i gydymffurfiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd y mae wedi'i wneud tuag at gyflawni ei amcanion cydraddoldeb.

7 Mewn blynyddoedd blaenorol mae'r Awdurdod wedi cynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ynghyd â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, fel rhan o gyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol. Fodd bynnag, eleni mae'r rhain wedi'u rhannu'n adroddiadau ar wahân.

8 Mae Asesiad Perfformiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2023/24 , fel dogfen annibynnol, yn manylu ar dystiolaeth o sut mae pob un o'r pum blaenoriaeth yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 wedi'u datblygu yn ystod blwyddyn olaf y cynllun presennol.

## GWYBODAETH

9 Mae'r pum blaenoriaeth yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yr Awdurdod wedi'u rhannu'n chwe amcan cydraddoldeb y mae'r Awdurdod am eu cyflawni er mwyn helpu i wneud Cymru'n lle tecach i fyw. Nod y Ddeddf Cydraddoldeb yw sicrhau bod gan bawb yr hawl i:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal;
- Meithrin cysylltiadau da; a
- Dileu gwahaniaethu.

10 Gan ddechrau gyda Blaenoriaeth 1, sy'n canolbwyntio ar Fywyd ac Iechyd ac sy'n cwmpasu Amcan Cydraddoldeb 1, mae'r adroddiad yn disgrifio sut mae timau atal a diogelu yn parhau i gynnig gwasanaeth cyson a chynhwysol, a sut mae'r Awdurdod, trwy ddatblygu cytundebau data personol a rhannu data newydd, wedi gallu addasu ei ddull i ddefnyddio nodweddion gwarchodedig i nodi grwpiau o bobl sydd mewn mwy o berygl o dân yn y cartref, a gweithio i deilwra negeseuon diogelwch.

11 O ran Blaenoriaeth 2, sy'n ymwneud â Chyflogaeth ac sy'n cwmpasu Amcan Cydraddoldeb 2, mae'r asesiad yn ymdrin â'r ystod o fentrau sydd wedi'u datblygu gyda'r nod o gynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a allai fel arall ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal i fyd gwaith, a hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd yng Ngogledd Cymru. Mae'r adran hon yn rhoi enghreifftiau o sut mae rolau wedi'u hysbysebu gyda dadansoddiad o'r ymatebion.

12 Mae Blaenoriaeth 3 yn ymwneud ag Addysg ac yn ymdrin â sut mae'r Awdurdod wedi parhau i ddatblygu diwylliant cynhwysol lle mae arweinwyr a staff yn dangos eu hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb a chefnogaeth ar gyfer gweithlu teg a chynhwysol.  Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys sut mae hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant penodol wedi'i ddarparu'n barhaus ar gyfer arweinwyr ar draws pob lefel o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), gyda'r ddarpariaeth hon yn llywio arfer gorau, ac yn cydnabod bod polisïau a gweithdrefnau amrywiol wedi'u diweddaru drwy gydol 2023/24.  Mae hyn yn cwmpasu Amcan Cydraddoldeb 3.

13 Mae Blaenoriaeth 4 yn ymdrin â diogelwch personol a'r gwaith sy'n ymwneud â lleihau'r risg o farwolaeth ac anafiadau trwy ddarparu gwasanaethau atal a diogelwch ac ymateb brys effeithiol. Mae enghreifftiau o sut mae'r Gymraeg wedi'i hymgorffori ymhellach wrth gyflwyno negeseuon diogelwch allweddol hefyd wedi'u cynnwys yn yr adran hon. Mae enghreifftiau eraill o sut mae'r flaenoriaeth hon wedi'i chyflawni yn cynnwys gwaith y mae'r Gwasanaeth wedi'i gyflawni yn y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod ymgyrchoedd diogelwch allweddol. Mae manylion digwyddiad cymunedol ym mis Chwefror 2024 gan Rwydwaith Staff Firepride y Gwasanaeth hefyd yn gwella'r dystiolaeth yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb 4 a 5.

14 Mae Blaenoriaeth 5 yn canolbwyntio ar gyfranogiad a chyfathrebu ac Amcan Cydraddoldeb 6, gan fanylu ynghylch pa mor bwysig yw bod yn agored ac yn atebol am yr hyn a wnawn a beth yw'r cynlluniau i annog mwy o bobl i gynnwys eu hunain yn y broses o benderfynu sut mae Gwasanaethau Tân ac Achub yn cael eu darparu yng Ngogledd Cymru. Fe wnaeth y gwaith ymgysylltu a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys roi tystiolaeth dda yn erbyn y flaenoriaeth hon, gan fod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cynnal ar wahanol gamau o'r prosiect, a bod Adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb llawn wedi'i lunio yn dilyn yr ymgynghoriad.

15 Mae'r Asesiad hefyd yn cyfeirio at yr amrywiaeth o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafodd y Gwasanaeth mewn perthynas â'i waith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.   Roedd rhai ceisiadau yn ymwneud â chydraddoldeb rhywedd, cymunedau LHDTC+, achosion o aflonyddu a rhai a oedd yn ymwneud yn benodol â'r gwariant ar weithgareddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag Amcanion Gwella a Llesiant/Ffyrdd o Weithio yr Awdurdod drwy ddarparu enghreifftiau o sut mae'r rhain wedi'u cyflawni drwy gyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 a'i flaenoriaethau a'i Amcanion Cydraddoldeb. |
| Cyllideb | Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y gyllideb Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn seiliedig ar gyflawni'r amcanion |
| Cyfreithiol | Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ysgrifennu Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd ac adrodd yn flynyddol ar ei berfformiad. 2023/2024 yw blwyddyn olaf y cynllun presennol. |
| Staffio | Mae'r Awdurdod yn cyflogi Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac i fonitro cynnydd drwy adrodd drwy'r strwythur llywodraethu a thrwy lunio'r asesiad perfformiad blynyddol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r rhain i gyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau monitro i'r pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn yr asesiad perfformiad blynyddol. |
| Risgiau | Mae'r holl risgiau wedi'u cynnwys yn y gofrestr risg. |

# Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2020-24

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

## Adroddiad Perfformiad Blynyddol: Cynnydd yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2023-24




ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

# Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2020-24

## CYNNYDD YN ERBYN AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2023/24

### Beth mae'r Ddeddf yn gofyn i'r Awdurdod ei wneud

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ysgrifennu cynllun cydraddoldeb bob pedair blynedd. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod 2020-2024 yn nodi pum blaenoriaeth. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u rhannu'n chwe amcan cydraddoldeb y mae'r Awdurdod am eu helpu i wneud Cymru'n lle tecach i fyw. Nod y Ddeddf Cydraddoldeb yw sicrhau bod gan bawb yr hawl i:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal;
- meithrin cysylltiadau da; a
- dileu gwahaniaethu.

Mae’r categorïau ar gyfer yr amcanion yn seiliedig ar y penawdau maes yn nogfen “Pa mor Deg yw Cymru” y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r penawdau hyn hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Cydraddoldeb Strategol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru; mae hyn yn galluogi cynnwys amcanion ar y cyd yng nghynlluniau cydraddoldeb strategol sefydliadau sector cyhoeddus unigol.

Ar ôl gosod yr amcanion hyn, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i'w dilyn ac i adrodd yn gyhoeddus ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ar y cynnydd y maent wedi'i wneud. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru nifer o nodweddion y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu ar y camau i'w cymryd. Dyma'r 'nodweddion gwarchodedig':

- Oed;
- Anabledd;
- Ailbennu rhywedd;
- Priodas a phartneriaeth sifil;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd a/neu gred;
- Rhyw; a
- Chyfeiriadedd rhywiol.

Nid yw statws economaidd-gymdeithasol yn nodwedd warchodedig, ond yng Nghymru, mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn rhoi sylw ac ystyriaeth briodol i sicrhau nad yw pobl dan anfantais ac yn dioddef gwahaniaethu o ganlyniad i'w statws economaidd-gymdeithasol.

Defnyddiwyd nifer o ffynonellau i ddatblygu amcanion cydraddoldeb strategol yr Awdurdod gan gynnwys dadansoddi cydraddoldeb; amcanion cynllunio gwella a lleihau risg cyfun; cynlluniau busnes gan Benaethiaid Adrannau; strategaethau a chynlluniau presennol; a chanlyniad ymgyrchoedd a gweithgareddau ymgysylltu sy'n gysylltiedig â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae deddfwriaeth yn caniatáu i'r amcanion gael eu newid ar unrhyw adeg, felly cynhelir gwerthusiad parhaus i sicrhau bod amcanion yn parhau i fod yn gyfredol. Mae'r Awdurdod yn archwilio'r dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol yn barhaus drwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad ei hun ar gyfer 2023/24.

## Blaenoriaeth 1 – Bywyd ac Iechyd

Amcan Cydraddoldeb 1

Lleihau tanau mewn anheddau ac anafusion cysylltiedig trwy strategaeth atal gynhwysfawr sy'n targedu'n benodol bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru y gellir dangos eu bod mewn mwy o berygl oherwydd eu bod yn rhannu un neu fwy o nodweddion penodol.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**

- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn parhau i gyflawni yn erbyn ei dargedau blynyddol. Mae Rheolwyr Partneriaethau yn parhau i ddatblygu eu gwaith gan ymgysylltu â'r bobl sydd fwyaf mewn perygl yn ein cymunedau. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth wedi parhau i gynyddu nifer y partneriaethau gyda grwpiau cymunedol, addoldai ac elusennau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r partneriaethau hyn yn galluogi ein staff i gysylltu â phobl o gefndiroedd amrywiol a'r rhai nad ydynt yn cael eu clywed yn aml.






- Yn 2023, gweithiodd yr adran atal mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint i lansio prosiect peilot a oedd yn cynnwys gosod dyfeisiau canfod tân Stoveguard mewn 17 o gartrefi pobl hŷn 'mewn perygl' sy'n byw mewn adeiladau uchel. Yn syml, mae technoleg Stoveguard yn diffodd y popty pan fydd y synhwyrydd yn canfod bod person wedi gadael coginio heb oruchwyliaeth am gyfnod penodol o amser neu sefyllfaoedd lle mae'r popty yn mynd yn rhy boeth neu pan fydd bwyd / olew yn llosgi. Arweiniodd yr ymyrraeth gychwynnol yn 2022/23 at 218 o ddigwyddiadau lle roedd y preswylwyr wedi osogi tanau posibl yn y gegin, gan leihau'r galw ar ein hymateb gweithredol."


- Gan adeiladu ar gysylltiadau helaeth y gwasanaeth â chwmnïau gofal sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, lansiwyd prosiect atal arloesol arall yn Sir y Fflint a Wrecsam (ardal y Dwyrain) ym mis Chwefror 2024. Mae'r prosiect yn ymwneud â system atgyfeirio sy'n cyfeirio unrhyw berson sy'n cael diagnosis o ddementia yn ardal y dwyrain i'n gwasanaeth a bydd technoleg Stoveguard yn cael ei gosod am ddim yn eu cartrefi.

- Fel adrannau eraill, mae'r holl dimau atal a diogelu yn cwblhau e-ddysgu gorfodol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i gyflwyno (ac adnewyddu) gwybodaeth sylfaenol. Mae'r timau hyn hefyd yn cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pwrpasol i sicrhau bod gwasanaeth safonol a chyson ar gael i'r gymuned. Yn ogystal, mae staff gweithredol sy'n darparu gweithgareddau atal yn cwblhau hyfforddiant pwrpasol i sicrhau bod gwasanaethau cyson a chynhwysol yn cael eu darparu.




- Yn ystod 2023/24, mae'r tîm Cynllunio Corfforaethol wedi dechrau datblygu dangosfwrdd data newydd. Mae'r gwaith cynnar ar y datblygiad cyffrous iawn hwn yn dangos y bydd y dangosfwrdd newydd hwn yn rhoi darlun amser real o ddata digwyddiadau y gellir ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau'r gwasanaeth gan gynnwys ei flaenoriaethau a chynllunio gwaith atal yn y dyfodol.

- Trwy gytundebau rhannu data personol a rhannu data gyda phartneriaid allanol, mae ein gwasanaeth wedi gallu defnyddio nodweddion gwarchodedig i nodi grwpiau o bobl sydd mewn mwy o berygl o dân yn y cartref. Mae'r dull hwn wedi helpu ein gwasanaeth i dargedu grwpiau penodol o bobl ac addasu'r ffyrdd rydyn ni'n cyfathrebu â nhw fel modd o'u cadw'n ddiogel. Er enghraifft, rydyn ni'n gweithio'n agos gyda grwpiau cymorth Dementia i hyrwyddo negeseuon diogelwch wedi'u teilwra i gannoedd o bobl a theuluoedd sy'n byw gyda dementia.




- Mae data'r Cyfrifiad a'r diweddariadau swyddogol yn parhau i roi gwybod i'n Gwasanaeth am newidiadau diweddar i'w gymuned, ei boblogaeth a'i ddemograffeg. Mae'r mewnwelediad hwn yn chwarae rhan allweddol wrth alinio blaenoriaethau a gweithgareddau recriwtio ac atal y gwasanaeth.

## Blaenoriaeth 2 – Cyflogaeth

Amcan Cydraddoldeb 2

Trwy ein harferion, rhaglenni a chynlluniau cyflogaeth ein hunain, ein nod yw cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a allai fel arall ei chael yn anodd cael mynediad cyfartal i fyd gwaith. Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i hybu cydraddoldeb rhywedd yng Ngogledd Cymru.


**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**

- Mae Pecynnau Gwybodaeth Recriwtio penodol ar gyfer pob swydd wag yn cynnwys gwybodaeth am ofynion y Gymraeg, dyletswyddau dyddiol y rôl, a'r person i gysylltu ag ef am ragor o wybodaeth. Nod y llyfrynnau hyn yw darparu’r holl wybodaeth y byddai ei hangen ar ymgeisydd mewn un lle, yn ogystal ag amlygu pwynt cyswllt. Mae'r llyfrynnau ar gael mewn gwahanol fformatau i ehangu mynediad.




- Mae tudalen Gyrfaoedd Tân Gogledd Cymru ar Facebook yn hysbysebu swyddi gwag sydd i ddod a rhai sydd ar gael ar hyn o bryd ledled y Gwasanaeth. Mae'r holl swyddi'n cael eu creu'n ddwyieithog yn unol â Chanllawiau’r Gwasanaeth a Safonau'r Gymraeg. Aeth y dudalen yn fyw ddechrau mis Chwefror 2023 ac mae wedi denu 302 o ddilynwyr a 182 achos o hoffi’r dudalen. Postiwyd neges yn amlygu ddiwrnod arferol yn yr Ganolfan gyfathrebiadau ar y Cyd er mwyn ennyn diddordeb yn y swyddi gwag yn yr Ystafell Reoli a chyrhaeddodd 17,989 o bobl gyda 1,521 o bobl yn ymgysylltu ag ef. Unwaith y daeth y swyddi gwag yn fyw, cyrhaeddodd y postiad yn hysbysebu’r swydd wag 24,452 o bobl, ac ymgysylltodd 2,093 o bobl â'r swydd, gan arwain at 20 cais am y swydd wag (o gymharu ag 8 a dderbyniwyd yn ystod yr ymgyrch flaenorol). Llwyddodd post arall yn hysbysebu rôl o fewn ein Tîm Cyfathrebu Corfforaethol trwy gyfrwng y Gymraeg i gyrraedd 1,493 o bobl ac fe wnaeth 49 o bobl ymgysylltu â'r post gan arwain at benodi ymgeisydd llwyddiannus. Nod y dudalen yw codi proffil rolau Gwasanaethau Corfforaethol ac annog mwy o geisiadau. Mae hyn bellach wedi'i agor i'w ddefnyddio gan y timau Recriwtio ac Argaeledd i godi ymwybyddiaeth o ran rolau ein Diffoddwyr Tân Ar Alwad.




- Yn ystod 2023/24, datblygodd y Gwasanaeth sawl ymyriad gweithredu cadarnhaol (e.e. gweler y posteri uchod) sydd wedi helpu i hyrwyddo gyrfaoedd ymhlith pobl dalentog ac amrywiol nad ydynt yn draddodiadol yn cael eu cynrychioli’n ddigonol yn ein gweithlu. Mae targedu cyfathrebu i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol trwy ddylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi datblygu ymddiriedaeth a pherthynas o fewn cymunedau penodol yn ffordd effeithiol o hyrwyddo gyrfaoedd a swyddi penodol.

- Mae gweithgareddau gweithredu cadarnhaol hefyd yn cynnwys cyflwyno gweithdai gyrfa anffurfiol mewn canolfannau cymunedol, digwyddiadau gyrfaoedd, addoldai, canolfannau hamdden, colegau a phrifysgolion. Mae'r gweithgareddau hyn sydd wedi'u targedu yn helpu i sicrhau bod pobl o bob cefndir ledled Gogledd Cymru yn gallu cael gafael ar wybodaeth sy'n eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch gyrfa bosibl yn GTAGC.

- Mae staff AD wedi defnyddio eu sianeli cyfryngau cymdeithasol eu hunain fel LinkedIn, Facebook a X (Twitter gynt) i hyrwyddo unrhyw swyddi gwag yn y Gwasanaeth Corfforaethol sydd ar ddod er mwyn ennyn diddordeb cyn i'r swyddi gwag fynd yn fyw. Mae'r dull hwn wedi helpu i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa drwy rwydweithiau ehangach gweithwyr adnoddau dynol a chysylltiadau recriwtio eraill.







- Mae presenoldeb mewn digwyddiadau recriwtio wedi parhau ac mae'r ymgysylltiad hwn wedi galluogi'r Gwasanaeth i gysylltu â cheiswyr gwaith yn ein cymunedau lleol a hyrwyddo'r cyfleoedd gwych sydd ar gael ar gyfer rolau o fewn y Gwasanaeth Corfforaethol a rolau Gweithredol/Rheoli. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r timau Adnoddau Dynol a Recriwtio ac Argaeledd i drafod gydag ymgeiswyr posibl unrhyw rwystrau y gallent fod yn eu profi fel y gellir adolygu'r rhain a mynd i'r afael â nhw lle bo hynny'n bosibl. Mae'r lluniau (gweler uchod) yn rhoi dwy enghraifft o sut mae'r gwasanaeth wedi ymgysylltu â phlant ac oedolion ifanc mewn colegau ac ysgolion. Targedir pobl yn benodol ar sail eu hoedran, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a lleoliad daearyddol i sicrhau bod pobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn draddodiadol yn ein gweithlu yn ymwybodol o'r gyrfaoedd posibl sydd ar gael iddynt.




- Mae AD hefyd wedi gweithio gyda'r adran Cyfathrebu Corfforaethol i gynhyrchu fideos byr i'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hyrwyddo rolau amrywiol o fewn y Gwasanaeth yn arbennig o ddefnyddiol i wella ymgysylltiad â siaradwyr Cymraeg ac egluro pam mae angen y Gymraeg ar gyfer rhai rolau a chael gwared ar rwystrau i ymgeiswyr lle nad yw'r Gymraeg yn hanfodol fel sgil diwrnod 1.

- Trwy gydol 2023/24, mae'r gwasanaeth wedi datblygu ei waith mewn perthynas â rhestrau gwirio dyslecsia cychwynnol a sgrinio gwybyddol sy'n helpu i nodi cryfderau, heriau a dewisiadau gweithwyr o ran dysgu a datblygu. Mae'r broses hon yn galluogi'r gwasanaeth i nodi, ystyried a gweithredu addasiadau rhesymol a chymorth perthnasol, yn enwedig ar gyfer gweithwyr niwroamrywiol.




- Cynigir rhestrau gwirio dyslecsia a sgrinio gwybyddol 'Do-It' i weithwyr newydd pan fyddant yn dechrau eu cyflogaeth gyda'r gwasanaeth. Mae rhestrau gwirio wedi'u cynnwys mewn pecynnau cychwynnol newydd yn ystod eu cyfnod cynefino ac mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth i gynnig cefnogaeth briodol ar ddechrau gyrfa unigolyn. Yn naturiol, gall gweithwyr presennol gael mynediad at restrau gwirio. Mae ymgyrchoedd penodol a sianeli cyfryngau arferol gan gynnwys y fewnrwyd, y gweithle a'r crynodebau byr wythnosol yn hyrwyddo'r sgrinio a'r gefnogaeth sydd ar gael.

- Drwy gydol 2023/24, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi 32 o weithwyr i gwblhau rhestr wirio Cymdeithas Dyslecsia Prydain sy'n nodi a allai gweithiwr brofi rhai rhwystrau gyda dysgu a datblygu.

- Yn ogystal, mae 19 o weithwyr wedi cael eu cefnogi i gwblhau'r sgrinio Do-It Profiler mwy cynhwysfawr. Mae'r broses hon yn cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnig strategaethau unigol i oresgyn eu heriau ac mae rhestr o addasiadau rhesymol ar gael i'r gwasanaeth eu hystyried a'u gweithredu.

- Mewn rhai achosion, cynhaliwyd nifer o asesiadau angen yn y gweithle ar gyfer unigolion i sicrhau eu bod yn gallu goresgyn heriau y maent yn eu hwynebu a bod addasiadau rhesymol yn cael eu gweithredu fel ffordd o hyrwyddo cyfle cyfartal, ehangu mynediad a galluogi gweithwyr i ffynnu, datblygu a pherfformio yn eu priod rolau.



- Yn ystod 2023/24, mae **cyfanswm nifer y gweithwyr** yn y gwasanaeth wedi cynyddu o 901 i 906.

- Yn ystod 2023/24, mae'r amrywiaeth o **weithwyr sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, deurywiol, hoyw, trawsryweddol (LHDT+)** wedi cynyddu o 23 (2.6%) i 28 (3.1%). Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 0.5%. Yn ogystal, mae cyfraddau datgelu staff LHDT+ wedi parhau i gynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae hyn yn dangos bod pobl yn gyfforddus ac yn teimlo'n hyderus i fod yn nhw eu hunain yn y gwaith.

- Yn ystod 2023/24, mae'r Gwasanaeth wedi cynyddu'r **amrywiaeth ethnig y gweithlu** o 29 (3.2%) i 30 (3.3%). Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 0.1%. Fodd bynnag, erbyn hyn mae ystod ehangach o grwpiau ethnig yn cael eu cynrychioli yn y gweithlu o'i gymharu â 2022/23.

- Yn ystod 2023/24, mae'r Gwasanaeth wedi gweld gostyngiad bach yn **nifer y menywod** yn y gwasanaeth o 194 (21.5%) i 192 (21.3%) ar draws pob rôl. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 0.3%.

- Mae nifer y **menywod mewn swyddi yn y gwasanaeth corfforaethol** wedi aros yn gyson sef 79 yn 2022/23 a 2023/24 yn y drefn honno.

- Mae **nifer y menywod mewn rolau gweithredol** wedi gostwng ychydig o 115 (15.1%) i 113 (14.8%) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 0.3%. Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith bod 50% o brif swyddogion y gwasanaeth yn fenywod a bod menywod yn cael eu cynrychioli ar draws pob lefel o reolaeth.

- Yn ogystal, mae llawer o **fenywod yn parhau i symud ymlaen yn y broses ddyrchafu** ar draws rolau gweithredol, rheolaeth a gwasanaeth corfforaethol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n gadarnhaol yn adroddiad 2023 y gwasanaeth sy'n dangos fod y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn lleihau.

- Yn ystod 2023/24, mae'r Gwasanaeth wedi gweld gostyngiad bach yn nifer y **gweithwyr ag anabledd** o 124 i 116 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Blaenoriaeth 3 – Addysg

<u>Amcan Cydraddoldeb 3</u>

Byddwn yn datblygu diwylliant cynhwysol lle mae arweinwyr a staff yn dangos eu hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb a chefnogaeth ar gyfer gweithlu teg a chynhwysol.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**

- Mae gan GTAGC bum rhwydwaith staff sefydledig, sef; Rhwydwaith Firepride, Menywod yn y Gwasanaeth Tân, Rhwydwaith Niwroamrywiaeth, Rhieni a Gofalwyr, a Crefydd, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol (REACH). Mae gan bob rhwydwaith Gadeirydd penodedig ac maent yn cyfarfod bob chwarter. Mae rhwydweithiau staff yn ychwanegu gwerth ac maent yn galluogi staff ag anghenion a dyheadau penodol i rannu syniadau, cynnig cyngor a chodi pryderon.

- Mae rhwydweithiau staff yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo gwahanol ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a defnyddio'r llwyfannau hyn i addysgu gweddill y gweithlu yn anffurfiol trwy rannu eu profiadau byw, adrodd straeon a chynnig cyngor sy'n llywio persbectif newydd. Mae gan bob rhwydwaith staff noddwr o blith yr uwch arweinwyr sy'n mynychu cyfarfodydd, yn trefnu digwyddiadau ac yn hyrwyddo cynhwysiant yn weithredol.

- Mae'r Rheolwyr Datblygu Polisi Corfforaethol wedi parhau i gefnogi adrannau i ddatblygu polisïau newydd ac adolygu'r polisïau presennol. Mae polisïau amrywiol sy'n gysylltiedig â phobl wedi cael eu datblygu ac mae pob un ohonynt yn chwarae rhan wrth greu diwylliant cynhwysol. Yn ogystal, adolygwyd polisïau sy'n ymwneud ag offer newydd, yr uned lesiant a pheiriannau arbennig gyda golwg ar sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiant gweithlu amrywiol.

- Yn 2023, aethpwyd ati i gyflwyno gwasanaeth 'safe call' cyfrinachol ac mae bellach wedi'i wreiddio'n dda. Mae'r weithdrefn hon, sy’n ddienw, yn rhoi dewis arall i weithwyr os ydynt am roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n ymwneud ag ymddygiad amhriodol, gwahaniaethol neu gamymddwyn.

- Mae’r Gwasanaeth yn parhau i ddarparu hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant penodol i arweinwyr ar draws pob lefel o'r gwasanaeth ac mae'r ddarpariaeth hon wedi llywio arfer gorau. Ymhlith y pynciau hyfforddi mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Arferion Gweithle Cynhwysol, Rhagfarn Ddiarwybod ac Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar. Mae adborth gan staff yn helpu i wella dyluniad hyfforddiant, y cynnwys a’r dulliau cyflwyno.










- Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu dogfennau canllaw pellach sy'n ymwneud â gwahanol arferion, gwyliau a dathliadau crefyddol a diwylliannol. Mae'r Gwasanaeth wedi gwella ei gyfres o ddogfennau canllaw cynhwysol drwy ddatblygu canllawiau pellach yn 2023/24. Mae'r canllawiau ar gael yn rhwydd ar y fewnrwyd i alluogi staff a rheolwyr i gael gafael ar gyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac i hyrwyddo cynhwysiant ymhlith eu timau.

- Mae'r Rheolwyr Datblygu Polisi Corfforaethol wedi diweddaru polisïau a gweithdrefnau pobl amrywiol drwy gydol 2023/24. Mae'r broses datblygu polisi yn cynnwys ymgynghori a dadansoddi cydraddoldeb i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn hyrwyddo cynhwysiant. Mae'r polisïau hyn yn sail i'r prosesau a'r arferion sy'n hyrwyddo gweithle cynhwysol.

- Mae gwaith pellach wedi'i gwblhau i sicrhau bod y Gwasanaeth yn lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae data bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2023/34 wedi'i gyflwyno i'r llywodraeth ac mae'r naratif perthnasol wedi'i gynnwys mewn adroddiad blynyddol sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn unol â'r gofynion adrodd deddfwriaethol.

- Mae Adroddiad Monitro Cydraddoldeb 2023/24 yn cynnwys yr holl ddata cyflogaeth a nodwyd gan Ddyletswydd Cydraddoldeb Penodol i Gymru 2011. Mae'r adroddiad hwn yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyhoeddi data sy'n ymwneud â ffigurau cyffredinol y gweithlu, math o gontract, llawn amser, rhan-amser, ymadawyr, hyfforddiant a dderbyniwyd o enillwyr cyflog yn y 5% uchaf. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi'r awdurdod i fonitro amrywiaeth ei weithlu a chynllunio gweithgarwch gweithredu cadarnhaol yn unol â hynny.


- Mae rhestrau gwirio dyslecsia cychwynnol a sgrinio gwybyddol ar gyfer dechreuwyr newydd a gweithwyr presennol wedi galluogi arweinwyr i fabwysiadu dulliau cyfathrebu addas a gweithredu addasiadau rhesymol yn unol â hynny. Mae'r broses hon yn sicrhau y gall y gwasanaeth nodi cryfderau, anghenion, dewisiadau a heriau unigolyn cyn gynted â phosibl. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r broses hon yn effeithiol o ran dysgu a datblygiad gweithiwr lle nodir addasiadau rhesymol sy'n galluogi gweithwyr i ffynnu a pherfformio hyd eithaf eu gallu.

CYRRAEDD Y NOD
CORPORATE HEALTH STANDARD
PLATINWM • PLATINUM
Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales




- Yn ystod 2023/24, mae'r Gwasanaeth yn derbyn 'Gwobr Platinwm' Safon Iechyd Corfforaethol uchel ei barch. Mae'r wobr yn gyflawniad sylweddol sy'n dangos ymrwymiad parhaus i wella iechyd a lles ei weithwyr.

- Mae'r arferion gorau Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant wedi'u gwreiddio'n organig o fewn meini prawf y Safon Iechyd Corfforaethol. Roedd hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i ddangos rhai arferion cynhwysol i'w weithwyr, ond hefyd ar gyfer iechyd a lles aelodau'r gymuned y maent yn eu gwasanaethu.



- Roedd ennill y 'Wobr Platinwm' yn ymdrech tîm go iawn. Gweithiodd arweinwyr o sawl adran gyda'i gilydd i gasglu tystiolaeth ac arddangos gwaith y Gwasanaeth (fel y gwelir o'r sgrinlun i'r chwith).

- Yn ystod 2023/24, datblygwyd dogfen ganllaw ar gyfer gweithwyr â chyfrifoldebau gofalu. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod gan roddwyr gofal anghenion, dyheadau a heriau penodol a nod y canllawiau yw hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.

- Mae nifer o bolisïau pobl wedi'u diweddaru yn ystod 2023/24 gan gynnwys Cadw Anabledd, Polisi Adleoli a Pholisi Dyletswyddau Addasedig sy'n cynnwys addasiadau rhesymol.

- Mae'r Gwasanaeth yn credu mai ei weithwyr yw ei ased mwyaf gwerthfawr, ac mae wedi ymrwymo i ddenu a chadw pobl dalentog. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod y gall trefniadau gweithio traddodiadol mewn swyddfa, mewn rhai achosion, fod yn anghydnaws â'r galw cynyddol am well cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae'r Gwasanaeth yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg i alluogi gweithwyr i sefydlu cydbwysedd rhwng eu bywyd gwaith a blaenoriaethau eraill.
- Mae Grŵp Pobl a Datblygu Sefydliadol Cymru Gyfan (PODG) wedi datblygu strategaeth sy'n darparu fframwaith ar gyfer arloesi, cysondeb, cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Bydd y dull hwn o weithio ar y cyd yn galluogi 'r Gwasanaeth i ddiogelu gweithwyr a'i gymunedau a myfyrio ar feysydd blaenoriaeth Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub mwyaf cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Yng ngoleuni pwysau cyllidebol parhaus a disgwyliadau cynyddol y cyhoedd, mae'r strategaeth hon yn cefnogi'r gwaith o chwilio am ffyrdd arloesol o weithio i ddefnyddio sgiliau a phroffesiynoldeb gweithlu'r GTA er budd y cyhoedd.

Amcan Cydraddoldeb 4

Trwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'u teilwra a ddarperir yn unigol ac ar y cyd, i rymuso pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i leihau eu lefel eu hunain o risg o dân a pheryglon eraill trwy gydol y cyfnodau gwahanol yn eu bywydau.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**

- Cynhaliodd addysgwyr y Gwasanaeth 216 ymweliad yn 2023/24 a chafodd 20,837 o blant a phobl ifanc eu cefnogi i gael gafael ar gyngor a gwybodaeth diogelwch allweddol.





- Drwy'r rhaglen addysg ysgol, cafodd 202 o grwpiau ysgol gyfle i gymryd rhan drwy gydol 2023/24. Gellir rhannu'r ffigwr hwn i 163 o grwpiau ysgolion cynradd a 39 o ysgolion uwchradd. Mae hyn yn golygu bod 14,941 o blant ysgolion cynradd a 5,378 o blant ysgolion uwchradd wedi derbyn gwybodaeth allweddol am ddiogelwch sy'n achub bywydau.
- Mae addysgwyr y Gwasanaeth hefyd wedi darparu gwybodaeth i 115 o blant mewn lleoliadau anghenion dysgu ychwanegol a 100 trwy glybiau haf lleol. Mae 95 o blant wedi ymweld â'r orsaf dân trwy sesiynau wedi'u trefnu ymlaen llaw gyda grwpiau lleol a’r Brownies. Yn ogystal, mae'r addysgwyr wedi cefnogi 196 o bobl ifanc i gyflwyno ffug gyfweliadau ar bynciau sy'n ymwneud â strategaethau diogelwch tân ac atal. Mae effeithiau ychwanegol yr ymgysylltiad hwn yn golygu bod pobl ifanc yn datblygu eu gwytnwch eu hunain i sicrhau eu bod yn fwy diogel yn eu cartref, ar y ffordd ac yn eu cymunedau.
- Mae gwaith pellach i gynhyrchu ymarfer mapio cynhwysfawr yn galluogi'r gwasanaeth i nodi grwpiau buddiant cydraddoldeb ar draws Gogledd Cymru. Mae mapiau unigol yn cael eu creu ar gyfer pob un o'r 44 gorsaf dân ac mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu fel recriwtio a hyrwyddo negeseuon diogelwch allweddol. Mae'r mewnwelediad hwn hefyd yn helpu'r gwasanaeth i fabwysiadu methodoleg gyfathrebu ac ymgysylltu briodol ar gyfer ymgysylltu â chynulleidfaoedd penodol (h.y. lleoliadau daearyddol, pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain, grwpiau oedran gwahanol).

## Blaenoriaeth 4 – Diogelwch Personol

<u>Amcan Cydraddoldeb 5</u>

Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru trwy ddarparu gwasanaethau atal a diogelu effeithiol ac ymateb brys.


**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**




- Mae'r gwasanaeth wedi parhau i ddarparu Hyfforddiant Iaith Gymraeg i ddechreuwyr newydd a datblygiad proffesiynol parhaus i ddatblygu sgiliau Cymraeg gweithwyr presennol. Mae traean o'n gweithlu yn siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n galluogi ein gwasanaeth i gyfathrebu negeseuon diogelwch allweddol, mynychu digwyddiadau cymunedol, derbyn galwadau brys ac ymateb yn effeithiol i argyfyngau gyda phobl sy'n siarad Cymraeg fel eu prif iaith.

- Yn ogystal â'r Hyfforddiant Iaith Gymraeg Lefel 2 safonol i weithwyr, mae'r gwasanaeth yn cynnig hyfforddiant uwch i'r rhai sy'n dymuno gwella eu sgiliau iaith hyd yn oed ymhellach. Mae amryw o weithwyr ar draws pob lefel o'r sefydliadau yn symud ymlaen drwy'r lefelau a byddwn yn rhoi sylw pellach i'r datblygiadau hyn yn yr adolygiad blynyddol nesaf.

- Er mwyn hyrwyddo cynhwysiant, cefnogir gweithwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg trwy amryw o ddulliau gan gynnwys hyfforddiant personol, sesiynau hyfforddi ar-lein, deunyddiau ysgrifenedig, CDs a chlipiau sain y gellir cael mynediad atynt ar ddyfeisiau’r gwasanaeth neu eu lawrlwytho ar lwyfannau eraill.







- Trefnodd Rhwydwaith Staff Firepride y Gwasanaeth ddigwyddiad cymunedol ym mis Chwefror 2024. Roedd y digwyddiad hybrid a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl ac ar-lein yn dod ag aelodau'r gymuned, staff tân ac achub ac asiantaethau allanol ynghyd. Roedd ffocws y digwyddiad ar hyrwyddo cynhwysiant, tynnu sylw at faterion yn ymwneud â mynediad at wasanaethau a rhannu arferion gorau i wella'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol. Trwy gydweithio ac ymgysylltu, caiff y gwasanaeth gyfle i ddatblygu perthynas â grwpiau cymunedol nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, ac mae'r adborth a dderbyniwn yn llywio ein gweithgareddau recriwtio, cynllunio gwaith a chyflwyno gwasanaethau.






- Mae ein rheolwyr partneriaethau wedi gweithio'n agos gyda gwahanol asiantaethau partner i drefnu digwyddiadau Cerdded a Sgwrsio Dementia pellach drwy gydol 2023/24. Mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a sawl cwmni gofal, mae dros 50 o bobl sy'n byw gyda dementia wedi mynychu dwy sesiwn 'cerdded a sgwrsio' yng Ngerddi Bodnant yng Nghonwy ac Erddig yn Wrecsam. Mae'r ymgysylltiad penodol hwn yn helpu i dargedu pobl yn y categori 'mewn perygl' lle gellir darparu cyngor diogelwch allweddol i bobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr ac aelodau teulu ehangach. Mae llawer o ymweliadau Diogel ac Iach yn cael eu trefnu drwy'r ymgysylltu hwn.







- Ym mis Mehefin 2023, fel rhan o ymgyrch Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr y gwasanaeth, ymgysylltodd y tîm atal yn benodol â theithwyr, preswylwyr cychod a phobl eraill sy'n byw ar gychod ar hyd Camlas Llangollen. Oherwydd ffordd o fyw symudol a dros dro pobl a theuluoedd sy'n byw mewn cychod ar gamlesi, gall hyrwyddo negeseuon diogelwch allweddol i'r gymuned hon fod yn heriol. Fodd bynnag, mae'r tîm atal wedi gweithio gydag asiantaethau partner fel yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd i nodi adegau penodol o'r flwyddyn y mae cychod yn teithio ac yn aros yng Ngogledd Cymru. Mae hyn wedyn yn creu cyfle i gynnig archwiliadau diogel ac iach sy'n cynnwys darparu cyngor diogelwch allweddol a gosod dyfeisiau canfod tân os oes angen.





- Ym mis Rhagfyr 2023, ehangodd y tîm atal eu hymgyrch diogelwch tân Nadolig sefydledig i gynnwys teithwyr a phobl eraill sy'n byw yn rheolaidd mewn cychod ar gamlesi yng Ngogledd Cymru. Mae'r ymgysylltiad penodol hwn wedi adeiladu ar rywfaint o ymgysylltiad cychwynnol â'r gymuned hon ym mis Mehefin 2023. Mae'r ymgysylltiad wedi cynyddu nifer y teithwyr sydd bellach wedi derbyn archwiliadau diogel ac iach.

- Yn 2023/24, cynhaliwyd 40 o Archwiliadau Diogel ac Iach pwrpasol i unigolion a theuluoedd sy'n byw'n barhaol mewn cychod ar gamlesi yng Ngogledd Cymru.

## Blaenoriaeth 5 – Cyfranogiad a Chyfathrebu

Amcan Cydraddoldeb 6

Trwy fod yn agored ac yn atebol am yr hyn rydyn ni’n ei wneud a beth yw ein cynlluniau, annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar y ffordd y caiff gwasanaethau tân ac achub eu darparu yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu’r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy’n cyfrannu at y broses honno.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**





- Fel rhan o'r Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys, lansiodd y gwasanaeth yr ymgynghoriad cyhoeddus mwyaf yn ei hanes rhwng 21 Gorffennaf 2023 a 22 Medi 2023. Er mwyn hyrwyddo cyfranogiad a chynhwysiant gweithredol, roedd aelodau'r gymuned yn gallu darparu adborth trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys mynychu sesiynau ymgynghori wyneb yn wyneb, llenwi holiaduron ar-lein, darparu adborth dros y ffôn neu anfon eu holiaduron wedi'u cwblhau drwy'r post.




- Fel rhan o'r ymgynghoriad, roedd ymgysylltu penodol â gwahanol grwpiau buddiant cydraddoldeb yn galluogi'r gwasanaeth i gasglu adborth gan bobl ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, ardaloedd daearyddol a chefndiroedd cymdeithasol.


- Fel rhan o'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, cynhaliwyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar wahanol gamau o'r prosiect ymgynghori a lluniwyd Adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb llawn ar ddiwedd y prosiect. Bu'r mewnweledIad hwn yn gymorth i asesu effaith bosibl gwneud penderfyniadau ar weithwyr, aelodau'r gymuned a rhanddeiliaid allanol eraill.

- Yn ystod 2023/24, derbyniodd ein gwasanaeth geisiadau Rhyddid Gwybodaeth amrywiol yn ymwneud â'i waith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Roedd rhai ceisiadau yn ymwneud â chydraddoldeb rhywiol, cymunedau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ynghyd â (LHDT+), achosion o aflonyddu a rhai yn benodol yn ymwneud â gwariant ar weithgareddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r Gwasanaeth yn cyhoeddi gwybodaeth fel ffordd o fod yn agored ac yn dryloyw, er bod ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn galluogi ein gwasanaeth i ddangos ymhellach sut mae eu gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn eu helpu i weithio tuag at amcanion strategol.




- Ym mis Mawrth 2024, lansiodd ein gwasanaeth ei ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys casglu adborth gan bobl ar draws pob grŵp oedran mewn lleoliadau cymunedol, grwpiau ieuenctid, elusennau a sefydliadau addysgol. Roedd yr adborth yn dangos bod cefnogaeth gref i lawer o ffrydiau gwaith a phrosiectau arfaethedig y gwasanaeth sy'n ymwneud â'r pum egwyddor sef; pobl, atal, amddiffyn, yr amgylchedd ac ymateb brys.

- Mae staff GTAGC wedi cymryd rhan weithredol yn Rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru a Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymru Gyfan sy'n cyfarfod bob yn ail fis a chwarterol yn y drefn honno. Mae'r fforymau hyn yn helpu i rannu arfer gorau ac adnoddau ac yn cydweithio ar drefnu hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu. Mae cynllunio strategol, datblygu cynlluniau gweithredu cydraddoldeb newydd a recriwtio i'r sector cyhoeddus wedi bod yn ffocws allweddol i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yn ystod 2023/24.



- Yn ystod 2023/24, mynychodd cynrychiolwyr o'r gwasanaeth Fforwm Rhyngffydd Gogledd Cymru. Mae'r fforwm hwn yn galluogi'r gwasanaeth i gysylltu â grwpiau crefyddol a dyneiddiol i gyfleu ein cynlluniau arfaethedig a negeseuon diogelwch allweddol ac mae'r ddeialog hon yn aml yn cynnwys derbyn adborth. Mae estyn allan at bobl sy'n dathlu ac yn dilyn crefydd hefyd yn galluogi ein gwasanaeth i hyrwyddo gwybodaeth diogelwch tân allweddol o ran paratoi a choginio bwydydd, tanio coelcerthi, llusernau, canhwyllau a llosgwyr olew sy'n ymwneud â digwyddiadau, gwyliau ac arferion crefyddol.






- Mae staff o Rwydwaith Staff Firepride y gwasanaeth wedi mynd ati i fynychu digwyddiadau balchder ledled Gogledd Cymru drwy gydol 2023/24 gan gynnwys digwyddiad partneriaeth Balchder Cymru (Ionawr 2023), Balchder Bae Colwyn (Mai 2023) a Balchder Gogledd Cymru yng Nghaernarfon (Mehefin 2023).
  Mae'r ymgysylltiad hwn wedi galluogi'r gwasanaeth i gysylltu â chymunedau LHDTQ+, cyfleu gwybodaeth allweddol, ond yn bwysicach, ymgynghori a chasglu adborth gan un o'r grwpiau mwyaf difreintiedig o bobl yn ein cymdeithas.






- Derbyniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Stewart Forshaw a Chadeirydd Firepride, Jamie Lewis wobr Balchder Cymru am Gyfraniad Eithriadol gan wasanaeth cyhoeddus ym mis Chwefror 2024. Mae'r wobr yn cydnabod ymrwymiad y gwasanaeth i gynhwysiant LGBTQ+ fel cyflogwr ac fel darparwr gwasanaeth.

- Mae cynrychiolwyr o'n gwasanaeth yn mynychu amryw o fforymau a rhwydweithiau allanol i sicrhau bod adborth rheolaidd yn cael ei gasglu gan grwpiau buddiant cydraddoldeb. Mae'r adborth hwn yn llywio ein dyluniad cychwynnol a sut fyddwn ni'n darparu gwasanaethau. Mae ymgysylltu allanol yn cynnwys mynychu fforymau gwirfoddol, cymunedol a sector cyhoeddus, grwpiau cymorth anabledd a dementia.







- Mewn cydweithrediad â phartneriaid diogelwch ar y ffyrdd a Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru, mae ein gwasanaeth yn darparu ymyriad diogelwch ar y ffyrdd o'r enw 'Stori Olivia' sy'n cynnwys stori go iawn am berson ifanc a gollodd ei bywyd mewn gwrthdrawiad ar y ffordd. Nod y ddarpariaeth diogelwch ar y ffyrdd yw lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffordd, ac yn benodol, gyrwyr ifanc. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyflwyno Stori Olivia i bob ysgol uwchradd ac mae ein gwasanaeth yn ei chyflwyno i golegau addysg bellach, ac i brentisiaid mewn gweithleoedd, fel AirBus. Yn 2023/24, mae dros 1,000 o bobl ifanc wedi derbyn yr ymyrraeth hon.



- Mae ymgysylltu cynyddol â grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar draws Gogledd Cymru wedi gwella ein gallu i gyrraedd pobl nas clywir yn aml. Mae mynd i ddigwyddiadau cymunedol a drefnir gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau buddiant cydraddoldeb eraill yn cyfrannu rhywfaint at feithrin perthynas â phobl nad oes ganddynt lais yn aml iawn. Mynychodd cynrychiolwyr o'n gwasanaeth nifer o ddigwyddiadau crefyddol a digwyddiadau amlddiwylliannol eraill yn ystod 2023/24. Mae'r digwyddiadau hyn yn galluogi staff i ymgysylltu â grwpiau o gefndiroedd Affricanaidd, Caribïaidd, Portiwgaleg a Dwyrain Ewropeaidd ac amrywiol grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill a fynychodd.




- Yn 2023/24, mae gwelliannau pellach o ran hygyrchedd wedi'u gwneud i'n gwefan a'i chynnwys i sicrhau ein bod yn cynnal y safonau gofynnol a bod aelodau'r gymuned yn canfod bod gwybodaeth yn hygyrch. Mae'r wefan yn cyfieithu cynnwys i 79 o ieithoedd gwahanol ac mae fideos Iaith Arwyddion Prydain (BSL) wedi cael eu diweddaru i hyrwyddo gwybodaeth benodol yn ymwneud â'n gwasanaethau atal. Mae ein staff wedi derbyn hyfforddiant hygyrchedd gwefannau i sicrhau ein bod yn cynnal safonau wrth symud ymlaen.




- Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, mae ein hadroddiad blynyddol ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a gwybodaeth am gyflogaeth yn cael ei gyhoeddi mewn perthynas â gweithwyr ac ymgeiswyr rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth bob blwyddyn ariannol. Mae adroddiadau ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gael yn rhwydd ar wefan y gwasanaeth.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

I hyrwyddo cyfle cyfartal a hygyrchedd, cysylltwch â ni os oes angen yr adroddiad hwn arnoch mewn print bras, iaith neu fformat wahanol.

**Ffôn -** 01745 535 250

**Neges destun** – 07507 303678

**E-bost -** enquiries@northwalesfire.gov.wales

*This document is available in English* **Eitem Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Ionawr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Tim Christensen<br>Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd** |
| Pwnc | **Cynllun Datgarboneiddio Pŵer** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion Cynllun Datgarboneiddio Pŵer (y Cynllun) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), sy'n darparu mesurau ac amserlenni manwl i liniaru'r allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnydd trydan fflyd ac ystad y Gwasanaeth am y cyfnod hyd at 2030.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 O dan gyfraith Cymru, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth liniaru ei ôl troed carbon gweithredol erbyn 2030. Mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â'r allyriadau o'r trydan a ddefnyddir gan fflyd cerbydau ac ystad y Gwasanaeth, gyda chynllun manwl i ddileu'r allyriadau hyn fel sy'n ofynnol o dan ein Strategaeth Amgylcheddol.

3 Mae'r Cynllun yn cynnig gosod paneli solar ffotofoltäig ym mhob un o safleoedd y Gwasanaeth lle mae'r galw am bŵer yn ddigonol i'w cyfiawnhau. Bydd hyn yn cael ei ariannu drwy fenthyca allanol ar delerau ffafriol gan Salix Finance Ltd (corff a sefydlwyd gan y llywodraeth ganolog i ariannu mesurau effeithlonrwydd hunanariannu mewn adeiladau cyhoeddus), a bydd yn cael ei ad-dalu o arbedion a gyflawnir ar sail na fydd yn achosi cost, gan greu elw ariannol unwaith y bydd y gost gyfalaf wedi'i had-dalu.

4 Gellir cyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni eraill ar safleoedd o dan yr un cynllun gwaith (megis uwchraddio goleuadau LED) lle mae'r pecyn cyffredinol yn bodloni'r meini prawf 'peidio ag achosi cost' sy'n ofynnol gan Salix Finance. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi nodau'r Gwasanaeth ynghylch caffael trydan carbon isel lle bo hynny'n ymarferol yn fasnachol.

**ARGYMHELLIAD**

5 **Argymhellir bod yr Aelodau'n:**

**i) Cymeradwyo'r Cynllun Datgarboneiddio Pŵer.**

## ARSYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

## CEFNDIR

7 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno cyfres o gyllidebau carbon, gan nodi llwybr i Gymru fod yn genedl garbon-niwtral erbyn 2050. O dan Gyllideb Garbon 2, mae'n ofynnol i sector cyhoeddus Cymru fod wedi cyrraedd y nod hwn erbyn 2030.

8 Er mwyn cydymffurfio â'r uchelgais hwn, mabwysiadodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) Strategaeth Amgylcheddol ar 17 Gorffennaf 2023 ar gyfer y cyfnod 2023-2030. Ymhlith targedau eraill, roedd y Strategaeth hon yn gorfodi datblygu Cynllun Datgarboneiddio Pŵer, yn nodi sut y byddem yn lliniaru'r allyriadau carbon Cwmpas 2 (anuniongyrchol) sy'n deillio o ddefnyddio trydan.

9 Cafodd Gweithgor Aelodau ei gynnull rhwng Ebrill a Gorffennaf 2023 i roi gwybodaeth berthnasol i'r Aelodau ac i gael cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu cynlluniau datgarboneiddio manwl. Cymeradwyodd y grŵp hwn y strategaeth datgarboneiddio pŵer a nodir yn yr adroddiad hwn.

## GWYBODAETH

10 Mae'r Cynllun yn nodi cyfres o fesurau y gall y Gwasanaeth eu defnyddio i leihau ôl troed carbon ei ddefnydd o drydan. Mae hyn yn cynnwys microgynhyrchu (gan ffafrio solar ffotofoltäig), gwelliannau effeithlonrwydd ynni i adeiledd ein hystad, a mesurau ynghylch caffael ynni gwyrdd a gyflenwir trwy'r Grid Cenedlaethol.

11 Rydym yn bwriadu rhoi'r Cynllun ar waith ar y cyd â'r Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi (a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 21 Hydref 2024). Lle mae systemau gwresogi amgen carbon isel yn cymryd lle systemau gwresogi mewn safleoedd, byddwn yn anelu at osod paneli solar ffotofoltäig, systemau batri, a gwneud gwaith ôl-osod ar adeiledd adeiladau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hariannu trwy Salix Finance, gydag arbedion cost wedi'u modelu ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn niwtral neu'n bositif o ran llif arian.

12 Er bod y Gwasanaeth yn bwriadu cynhyrchu cryn dipyn o'i ynni adnewyddadwy ei hun, mae'r Cynllun yn dibynnu ar ddatgarboneiddio'r Grid Cenedlaethol i liniaru allyriadau carbon Cwmpas 2 yn llawn. Polisi presennol y llywodraeth ganolog yw cael <1% o drydan sy'n deillio o hydrocarbonau ar y grid erbyn 2035, felly rhagwelir y bydd rhywfaint o allyriadau carbon Cwmpas 2 gweddilliol yn parhau erbyn y dyddiad targed o 2030.

13 Byddai lliniaru'r ôl troed carbon gweddilliol bychan hwn yn anghymesur o anodd a drud, ac nid yw wedi'i argymell i'r Aelodau ar hyn o bryd gan y credir y byddai'n well defnyddio'r adnoddau sydd eu hangen i wneud hynny i liniaru allyriadau Cwmpas 1 (uniongyrchol) y Gwasanaeth.

14 Yn ddiweddar, cynhaliwyd arolygon strwythurol o doeau pob adeilad sy'n eiddo i'r Gwasanaeth, er mwyn canfod lleoliadau addas ar gyfer paneli solar.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Cynllun arfaethedig yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant datganedig yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Bydd yr ôl-osod arfaethedig yn cael ei ariannu trwy fenthyca allanol, gydag ad-daliadau'n cael eu gwrthbwyso'n llawn gan well effeithlonrwydd. Rhagwelir y bydd y Cynllun yn niwtral o ran llif arian i ddechrau, ac yn bositif o fewn wyth mlynedd. |
| Cyfreithiol | Risg o beidio â chydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| Staffio | Ni ragwelir unrhyw newidiadau i lefelau staffio o ganlyniad i'r Cynllun hwn |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ymgynghorwyd â'r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, ac ni chodwyd unrhyw faterion. |
| Risgiau | • Gall amrywiadau mewn marchnadoedd ynni effeithio'n uniongyrchol ar yr achos busnes ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy. Bydd cynigion yn cael eu nodi yn seiliedig ar brisiau trydan ar y pryd; fodd bynnag, bydd paneli solar yn gwneud elw beth bynnag yn y pen draw.<br>• Gall systemau storio mewn batris achosi ychydig mwy o risg o dân. Bydd y Gwasanaeth yn cymryd pob cam rhesymol i liniaru hyn trwy gaffael, archwilio rheolaidd a lleoli gosodiadau yn ofalus. Bydd yswirwyr yn cael eu hysbysu i sicrhau bod yr yswiriant yn parhau. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Ionawr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Tim Christensen**<br>**Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd** |
| Pwnc | **Cynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion Cynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol (y Cynllun) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), sy'n darparu mesurau ac amserlenni manwl i liniaru'r allyriadau carbon hynny nad ydynt wedi'u lliniaru gan y Cynlluniau Datgarboneiddio sydd ar waith ar gyfer y Fflyd, Gwresogi a Phŵer am y cyfnod hyd at 2030.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 O dan gyfraith Cymru, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth liniaru ei ôl troed carbon gweithredol erbyn 2030. Mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â'r allyriadau sy'n weddill y tu hwnt i'r mesurau lliniaru a fabwysiadwyd eisoes ar gyfer Cwmpas 1 a 2, gyda chynllun manwl i ddileu'r allyriadau hyn fel sy'n ofynnol o dan Strategaeth Amgylcheddol y Gwasanaeth.

3 Mae'r Cynllun yn cynnig mesurau manwl i wrthbwyso'r holl allyriadau carbon gweddilliol Cwmpas 1, 2 a 3 na ellir eu lliniaru'n uniongyrchol. Mae'r allyriadau gweddilliol hyn yn cyfrif am ychydig dros hanner cyfanswm ein hôl troed carbon.

4 Y ffordd fwyaf cost-effeithiol o gyflawni hyn yw dal carbon deuocsid o'r atmosffer mewn coed. Fodd bynnag, mae risgiau amgylcheddol sylweddol yn deillio o gynlluniau o'r fath yn ogystal â phryderon ynghylch defnydd tir, ac 'ychwanegedd' - p'un a fyddai gweithgaredd lleihau carbon wedi digwydd fel arall ai peidio.

5 Am y rhesymau hyn, a chostau cyfalaf tybiedig sefydlu cynllun atafaelu, rydym yn argymell na ddylid ystyried unrhyw weithgaredd gwrthbwyso hyd nes bydd yr holl allyriadau Cwmpas 1 a 2 wedi'u lliniaru'n llawn.

## ARGYMHELLIAD

6 **Argymhellir bod yr Aelodau'n:**

- **i) Cymeradwyo'r Cynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol; a**
- **ii) chyfarwyddo Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i ddechrau gweithredu'r Cynllun pan fydd yr holl allyriadau carbon sy'n deillio o Gwmpas 1 a 2 wedi'u lliniaru'n llawn, ac nid cyn hynny.**

## ARSYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

7 Nid yw'r papur hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

## CEFNDIR

8 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno cyfres o gyllidebau carbon, gan nodi llwybr i Gymru fod yn genedl garbon-niwtral erbyn 2050. O dan Gyllideb Garbon 2, mae'n ofynnol i sector cyhoeddus Cymru fod wedi cyrraedd y nod hwn erbyn 2030.

9 Er mwyn cydymffurfio â'r uchelgais hwn, mabwysiadodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) Strategaeth Amgylcheddol ar 17 Gorffennaf 2023 ar gyfer y cyfnod 2023-2030. Ymhlith y targedau eraill, roedd y Strategaeth hon yn gorfodi datblygu Cynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol, gan nodi sut y byddem yn gwrthbwyso allyriadau o'r tri Chwmpas na ellid eu lliniaru'n uniongyrchol.

10 Cafodd Gweithgor Aelodau ei gynnull rhwng Ebrill a Gorffennaf 2023 i roi gwybodaeth berthnasol i'r Aelodau ac i gael cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu cynlluniau datgarboneiddio manwl. Cymeradwyodd y grŵp hwn y strategaeth a nodir yn yr adroddiad hwn.

## GWYBODAETH

11 Gellir ymdrin ag allyriadau carbon mewn dwy ffordd, 'lliniaru' – atal allyriadau rhag digwydd yn y lle cyntaf, a 'gwrthbwyso', sef cael gwared ar faint cyfatebol o garbon deuocsid atmosfferig (neu nwyon tŷ gwydr eraill) drwy weithgaredd na fyddai wedi digwydd fel arall. Mae mesurau lliniaru yn cael eu ffafrio'n gryf, a dyna pam mae gennym gynlluniau manwl ar waith i liniaru'r carbon sy'n cael ei allyrru gan ein hadeiladau, ein fflyd a'n defnydd o bŵer.

12 Er mwyn gwrthbwyso'r allyriadau carbon sy'n weddill, byddai angen gweithredu un o'r mesurau technegol a nodir yn y Cynllun. Mae costau llawer o'r mesurau hyn yn debygol o fod yn afresymol, a dyna pam mae llawer o sefydliadau eraill wedi troi at blannu coed (atafaelu biogenig) i wrthbwyso'r rhan hon o'u hôl troed carbon.

13 Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda Coed Cadw yn 2023, ynghylch y posibilrwydd y gallai'r Gwasanaeth ariannu cynllun plannu coed achrededig ar eu tir, a chymryd perchnogaeth o'r hawliau atafaelu carbon. Oherwydd y ffaith nad yw coed yn cyrraedd y capasiti amsugno brig (mewn cilogramau o $CO_2$ fesul coeden y flwyddyn) am flynyddoedd lawer ar ôl eu plannu, byddai nifer y coed y mae'n ofynnol eu plannu heddiw i liniaru ein holl allyriadau gweddilliol disgwyliedig erbyn 2030 yn costio dros filiwn o bunnoedd.

14 Er ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol i ni gael cynllun sy'n mynd i'r afael â'n hallyriadau carbon gweddilliol, cynghorir yr Aelodau i beidio â'i orfodi tan i'r holl allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 gael eu hystyried, gan y byddai gwneud hynny'n ddefnydd gwael o arian, a gellid dadlau y byddai'n creu canlyniadau amgylcheddol gwaeth.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Cynllun arfaethedig yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant datganedig yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r gost gyfalaf i liniaru ein hallyriadau carbon gweddilliol yn llawn yn debygol o fod dros £1m. Felly, gofynnir am gyfarwyddyd gan yr Awdurdod i beidio â gweithredu'r Cynllun tan y bydd yr holl allyriadau Cwmpas 1 a 2 wedi'u lliniaru'n llawn. |
| Cyfreithiol | Risg o beidio â chydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| Staffio | Ni ragwelir unrhyw newidiadau i lefelau staffio o ganlyniad i'r Cynllun hwn |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ymgynghorwyd â'r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, ac ni chodwyd unrhyw faterion. |
| Risgiau | Gall mesurau gwrthbwyso a ddewiswyd yn wael gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd, yn ogystal â bod yn werth gwael am arian - gan amlygu'r Awdurdod Tân ac Achub a'r Gwasanaeth i broblemau archwilio a niwed i enw da. |